


# Hunanasesiad Corfforaethol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



2024/25

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council



# Diben yr adroddiad hwn

Ym mis Ionawr 2021, pasiodd Senedd Cymru gyfraith newydd a newidiodd y ffordd mae cynghorau'n gweithio. Bob blwyddyn mae'n rhaid inni gyhoeddi adroddiad hunanasesu. Mae'r adroddiad hwn yn trafod y cyfnod 6 Ebrill 2024 i 5 Ebrill 2025.

Rydym am i'r adroddiad roi sicrwydd i Lywodraeth Cymru ein bod yn perfformio'n dda. Rydym hefyd am i'r adroddiad roi gwybod i'r Llywodraeth ein bod yn gwneud defnydd priodol o'n harian ac o adnoddau eraill ac yn gwneud penderfyniadau mewn modd synhwyrol ac agored. Yn bennaf oll, rhaid i'r adroddiad esbonio sut rydym yn perfformio wrth drigolion a busnesau lleol ac wrth bob rhanddeiliad. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ganllawiau a ddywedodd wrthym sut i ddatblygu ein hunanasesiad a pha dystiolaeth i'w defnyddio i'n barnu ein hunain.

Mae ein hunanasesiad hefyd yn gweithredu fel ein hadroddiad blynyddol, ein hadroddiad llesiant ac, am y tro cyntaf eleni, fel ein hadroddiad ar y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol.



2024/25

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

# Sut mae'r byd yn newid i lywodraeth leol

Mae'r byd yn newid yn gyflym, ac mae hyn yn cael effaith fawr ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio. Dyma rai o'r pethau anoddaf rydyn ni wedi bod yn ymdrin â nhw -

- **Yr argyfwng costau byw parhaus sy'n achosi costau ynni uwch, newidiadau i gost ac argaeledd nwyddau a gwasanaethau, ac yn effeithio ar drigolion gan ychwanegu at y galw am ein gwasanaethau. Nid yw cyllid hirdymor y Cyngor yn cynyddu ar yr un gyfradd, felly ni all ein cyllid ddal i fyny â'n gwariant.**
- **Newidiadau gwleidyddol gartref a thramor, gan gynnwys Llywodraeth Lafur newydd yn y DU. Mae hyn yn golygu bod y sefyllfa ariannol yn newid, bod blaenoriaethau'n newid a'r disgwyliadau gan y Cyngor yn newid, er enghraifft mae'r cynnydd i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr yn debygol o ychwanegu costau sylweddol i gynghorau a'n partneriaid.**
- **Deddfwriaeth newydd a phellgyrhaeddol gan Lywodraethau Cymru a'r DU ar faterion yn cynnwys partneriaethau cymdeithasol, mewnfudo, dileu elw o ofal cymdeithasol, hawliau cyflogaeth a chaffael sy'n effeithio ar rannau mawr o'n sefydliad.**
- **Galw eithriadol ar draws rhai o'n meysydd gwasanaeth allweddol gan gynnwys cymorth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gofal pobl hŷn, lleoliadau cymhleth i blant a digartrefedd. Newid i batrymau angen mewn meysydd gwasanaeth eraill, er enghraifft ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion. A gwasanaethau eraill yn ei chael hi'n anodd bodloni disgwyliadau oherwydd problemau capasiti/cydnerthedd yn dilyn blynyddoedd o doriadau cyllidebol.**

# Ein cynnydd yn erbyn meysydd i'w gwella y llynedd

Yn ein Hunanasesiad Blynyddol 2023/24, nodwyd cyfres o feysydd gennym lle'r oedd angen gwelliannau penodol yn 2024/25. Isod ceir diweddariad am y gwaith rydym wedi'i gyflawni yn y meysydd hyn. Darperir rhagor o fanylion am y camau hyd yma, a'r rhai sy'n dal i gael eu cynllunio yn holl adrannau manwl yr adroddiad hwn.

2024/25

# Amcan Llesiant Un

- Mae modiwlau E-ddysgu gorfodol i'r staff wedi cael eu hadolygu a bydd proses wedi'i diweddaru yn cael ei defnyddio o hyn allan.
- Rydym wedi lleihau'n sylweddol yr ôl-groniad o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Ceir bellach 83 o achosion unigol o'r gorffennol (2020/2023) sy'n disgwyl dyraniad, o gymharu â 268 o achosion ar ddiwedd 23/24
- Mae'r Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd wedi cael ei adolygu. Mae Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd a chynadledda grŵp teuluol wedi'u sefydlu.
- Mae'r Gwasanaeth Atal a Llesiant wedi rhoi cefnogaeth i 72 o ofalwyr ifanc newydd mewn ysgolion cynradd a 106 mewn addysg uwchradd/uwch. Rhoddwyd cymorth hefyd drwy gyflwyno cerdyn adnabod gofalwr ifanc i 167 o ofalwyr ifanc newydd, a thrwy gyflwyno cerdyn aelodaeth halo i 282 o ofalwyr ifanc newydd (a 377 o aelodau teulu newydd).
- Wedi cyflwyno sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig' ac asesiadau gofalwyr cymesur. Gall y rhain leihau'r angen am asesiad gofalwr llawn gan weithwyr cymdeithasol.
- Cynhaliwyd digwyddiad rhwydwaith gofalwyr ifanc fel bod gofalwyr ifanc yn cwrdd â'i gilydd, i rannu gwybodaeth ac i dreulio amser i ffwrdd o'u cyfrifoldebau, gofalu a'r ysgol.
- Adolygwyd cynllun gweithredu'r gwasanaethau plant yn rheolaidd, a bu cynnydd da o ran y blaenoriaethau.
- Mae cynllun strategol 3 blynedd y Gwasanaethau Oedolion wedi cael ei ddatblygu a'i fabwysiadu ac ar ganol cael ei weithredu.
- Mae model gweithredu'r dyfodol ar gyfer Gwasanaethau Plant bellach ar waith a'r prosesau a'r paneli sylfaenol wedi'u sefydlu.
- Mae rhaglen hyfforddi 4 diwrnod ar gyfer ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau i staff gofal cymdeithasol rheng flaen wedi cael ei datblygu a'i chyflwyno. Rydym hefyd yn gweithio i gefnogi ein partneriaid i ddeall y model Arwyddion Diogelwch.
- Mae drafft o Strategaeth Comisiynu Lleoliadau Plant a Theuluoedd wedi cael ei lunio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae adolygiad hefyd wedi'i gynnal o gyfleoedd dydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet.
- Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn parhau i oruchwylio arferion diogelu ar draws y Cyngor. Mae archwiliad mewnol wedi rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch trefniadau diogelu corfforaethol.
- Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth roi'r cynllun gweithredu o Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai ar waith, gan gynnwys cychwyn Cynllun Lesio Cymru a datblygu modelau llety ychwanegol, gyda chynllun y Cyngor i brynu llety o fath HMO. Mae adolygiad o ddyraniad tai cymdeithasol bellach wedi'i gwblhau ond caiff ei gymeradwyo yn 2025/26.
- Rydym wedi darparu hyfforddiant diogelu rheolaidd i lywodraethwyr ysgolion ar-lein ac yn y cnawd.
- Mae Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Diogelu ac Ecsbloetio wedi'i chymeradwyo a chynlluniau lleol wedi'u datblygu i'w gweithredu yn y Cyngor.



# Amcan Llesiant Dau

2

- Cyflawnwyd rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn llwyddiannus yn 2024/25, gyda 37 o fusnesau'n derbyn cyllid.

- Mae'r ddarpariaeth cyflogadwyedd i bobl ag anghenion gofal a chymorth wedi cofrestru 1,778 o gyfranogwyr yn 2024/25. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i gefnogi hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth. Mae'r Tîm Marchnata ac Ymgysylltu wedi'i hen sefydlu ac yn llwyddo i hyrwyddo cyflogadwyedd.

- Rydym yn helpu pobl sydd ag anghenion cymorth i oresgyn rhwystrau i waith. Mae Rhwydwaith Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal cyfarfodydd misol â sefydliadau partner i lywio a datblygu llwybrau atgyfeirio a chyfleoedd cydweithredol.

- Mae'r Rhaglen Trawsnewid Trefi wedi dyfarnu £340,307 i bum cynllun sy'n cyfrannu at adfywio canol ein trefi.

- Mae contract caffael newydd (i adlewyrchu Deddf Caffael 2023) wedi cael ei ddatblygu, ei gyhoeddi ar y fewnrwyd i staff a'i rannu â chyflenwyr.

- Rydym wedi cynnal grwpiau ffocws i ddeall canlyniadau arolwg staff 2024 yn well ac wedi datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'r materion a chynnal arolygon staff mewn ffordd wahanol.

- Rydym wedi nodi saith Cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol ychwanegol yn 2024/25 y dyfarnwyd contractau iddynt, gan godi'r cyfanswm i 257. Rydym wedi cynnwys cwestiwn yn ein dogfennau tendro i'n helpu i adnabod Cyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol yn rhwyddach.

- Mae dysgu a datblygu i gefnogi gweithwyr cymdeithasol yn cynnwys cyflwyniad i'r model ymarfer, 2 ddiwrnod o hyfforddiant rhagarweiniol. 5 diwrnod o hyfforddiant uwch, gweithdai partneriaeth, gweithdai i reolwyr, gweithdai ymarfer dwys i dimau penodol a datblygu pecyn e-ddysgu (lefel ymwybyddiaeth).



# Amcan Llesiant Tri

3

- Mae'r ymgynghoriad ar y Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Maesteg wedi'i gwblhau ac mae'r Cynllun bellach yn barod i'w gymeradwyo'n ffurfiol.

- Talodd y Grant Gwella Eiddo Masnachol £168,280 yn erbyn saith eiddo i wella a chydgyfnerthu'r stryd fawr mewn ardaloedd masnachol ar draws ein cymoedd. Cefnogwyd y gronfa hon gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

- Wynebwyd heriau wrth gyflawni'r Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC), a dim ond dau drosglwyddiad a gwblhawyd gennym yn erbyn targed o ddeg, yn rhannol oherwydd problemau staffio.

- Mae gwaith i ddatblygu 180 o gartrefi newydd yn parhau ar safle Heol Ewenni. Mae gwerthiant hen Ystâd Ddiwydiannol Heol Ewenni i ddatblygwr tai yn cael ei gwblhau.

- Mae Strategaeth Adfywio'r Cymoedd ar ffurf drafft terfynol. Ar ôl ei mabwysiadu'n ffurfiol, byddwn yn defnyddio'r strategaeth fel offeryn i ddatblygu cynigion ariannu posibl.

- Mae'r Prosiect Gwella Mannau Gwyrdd wedi'i gwblhau.

- Rydym yn parhau i weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs), Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatrys problemau sy'n effeithio ar y gallu i ddarparu safleoedd tai fforddiadwy newydd yn y cymoedd.

- Rydym wedi sicrhau cyllid i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cyfleusterau newydd i bobl ag anableddau dysgu yn Wood-B a B-Leaf.

- Mae buddsoddiad cyfalaf drwy Chwaraeon Cymru a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi ychwanegu gwerth at Ganolfan Bywyd Bro Ogwr, drwy ychwanegu estyniad ar y stiwdio fel bo modd cynyddu gweithgareddau i oedolion hŷn.

- Mae HALO Leisure wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol i hyrwyddo'r defnydd o'r cyfleusterau llyfrgell sydd wedi'u huwchraddio yng Nghanolfan Bywyd Ogwr.

- Mae'r rhaglen llesiant Teimlo'n Dda am Oes wedi cefnogi 600 o bresenoldebau. Mae gweithgareddau llesiant cymunedol Super-Agers wedi cefnogi 163 o unigolion (2061 o bresenoldebau a 126 o gyfleoedd). Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) wedi cefnogi 1331 o atgyfeiriadau newydd.

- Mae'r broses dendro ar gyfer cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg Betws wedi dod i ben ac mae darparydd a ffafrir wedi derbyn y cyfle. Bydd y broses dendro ar gyfer darpariaeth Melin Ifan Ddu yn parhau hyd fis Medi 2025.



# Amcan Llesiant Pedwar

4

- Rydym wedi gweithredu gofynion gorfodol Cwricwlwm Cymru ym mhob ysgol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Mae'r Model Adfer wedi Trawma wedi cael ei weithredu, ac rydym yn creu ystod o ymyriadau trawma ar gyfer gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr a'i bartneriaid, gan fabwysiadu'r model ymarfer ar sail trawma gyda phlant.
- Mae'r Panel Atal a Dargyfeirio yn derbyn mewnbwn gan ystod o randdeiliaid (gan gynnwys Heddlu De Cymru a Choleg Penybont), er mwyn helpu i gynllunio strategaethau ymadael ar y cyfle cyntaf posib. Mae hefyd yn fodd i ddyrannu atgyfeiriadau nad ydynt o bosib yn addas i dderbyn cefnogaeth gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr.
- Cynhaliodd y Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid banel amlasiantaeth i adolygu disgyblion Blwyddyn 11 â llai na 50% o bresenoldeb, ac i drafod cymorth. Mae nifer y disgyblion sy'n gadael Blwyddyn 11 a heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru.
- Mae fforwm digidol 'Eich Llais' wedi dod i ben ac roedd ganddo 790 o gyfranogwyr. Bydd staff o'r Tîm Hawliau a Chyfranogiad Plant yn gweithio gyda Chynghorwyr Ieuenctid i nodi'r themâu a'r materion a godwyd.
- Cynhaliwyd archwiliad o sgiliau llywodraethwyr yn haf 2024, i gasglu gwybodaeth am anghenion dysgu a hyfforddiant ar sgiliau'r proffesiwn ar gyfer llywodraethwyr ysgolion. Defnyddiwyd adborth i nodi agweddau sydd eu hangen o ran datblygiad proffesiynol.
- Mynychodd cyfanswm o 67 o lywodraethwyr hyfforddiant diogelu (Diogelu Grŵp A, Diogelu Grŵp B ac Amddiffyn Plant) rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, naill ai mewn sesiynau wyneb yn wyneb neu ar-lein.
- Mae ysgolion wedi derbyn hyfforddiant dysgu digidol ychwanegol ar destunau fel diogelwch ar-lein, defnyddio adnodd 'Cynllunio am Ddilyniant y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, Adobe Express. Mae athrawon ac ymarferwyr bellach wedi'u paratoi'n dda i integreiddio'r offer a'r fframweithiau digidol hyn i'w cwricwlwm.
- Rydym yn ailddatblygu'r wefan a arweinir gan bobl ifanc. Mae Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn aros am ganlyniad cynnig busnes i dreialu cyfrif TikTok corfforaethol.
- Mae ein cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu, sef Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi cael ei gwblhau, sy'n hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn cynnwys gweledigaeth a negeseuon i'r perwyl hwnnw. Mae 'Amserlen Gyfathrebu Cymraeg' wedi'i chwblhau, sef cynllun ar gyfer cyfathrebu wedi'i dargedu dros y flwyddyn. Gwnaethom hefyd lansio ymgyrch ar Facebook i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae dyluniad yr ysgol ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Ogwr wedi'i ddatblygu ac mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r angen am gyllid cyfalaf ychwanegol. Mae materion ecolegol yn parhau i effeithio ar safle Ffordd Cadfan. Mae hyn wedi effeithio ar amseriad ymchwiliad safle.
- Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gymeradwyaeth i symud prosiect Ysgol Heronsbridge ymlaen i'r cam Achos Busnes Llawn. Cymeradwyodd y Cyngor y cyllid cyfalaf ychwanegol sydd ei angen ac mae proses dendro ar y gweill.
- Cyflwynwyd y cais cynllunio ar gyfer Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn lle'r hen Ysgol ac mae'r dyluniad manwl a'r gwaith rhagarweiniol ar gyfer y contract wedi'u datblygu. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam Achos Busnes Llawn.
- Mae cymeradwyaeth y Cabinet wedi'i derbyn i drawsnewid cynllun Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr o gyllid Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) i gyllid cyfalaf ac mae'r cais cynllunio wedi'i gyflwyno. Dechreuodd y broses dendro ym mis Chwefror 2025.
- Mae'r Tîm Ymgysylltu ag Addysg wedi trefnu sesiynau 'galw heibio' gyda'r Tîm Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal i sicrhau bod ein timau'n dod yn ymwybodol o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ar y cyfle cyntaf, er mwyn sicrhau pontio'n llyfn i fyd addysg, a bod cymorth priodol yn cael ei roi.
- Mae fframwaith perfformiad a chynlluniau gweithredu wedi'u datblygu i roi cymorth i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, fel y gall y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ddwyn partneriaid i gyfrif am y cynnydd a wnânt yn erbyn y blaenoriaethau a osodir.
- Mae Strategaeth Llety Ranbarthol ar gyfer pobl ag Anabledd Dysgu ac Adroddiad Rhanbarthol ar bontio i blant ag Anabledd Dysgu wedi cael eu llunio. Mae'r adolygiad yn seiliedig ar lety wedi'i gwblhau o fewn y Cyngor.

# Amcan Llesiant Pump

5

- Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu adolygiad o strategaeth trosglwyddo fflyd.

- Ar hyn o bryd ceir chwe cherbyd trydan yn y Gwasanaeth Cymorth yn y Cartref, y Tîm Ymateb Symudol, ac yn Nhrem-Y-Môr, sef y ganolfan ar gyfer ein staff o fewn y tîm adnoddau cymunedol integredig. Mae pwyntiau gwefru ar waith.

- Cafodd y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (CGAA) terfynol ei gymeradwyo gan y Cabinet a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2024.

- Rydym wedi cwblhau gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys gosod paneli solar.

- Mae'r adran Gynllunio wedi diweddaru ei gwefan yn llwyddiannus i gynnwys gwybodaeth ac arweiniad ychwanegol am y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

- Mae'r Bartneriaeth Natur Leol (PNL) yn parhau i gael ei chefnogi gan y Tîm Ymateb i Newid Hinsawdd. Mae'r tîm yn datblygu prosiectau gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol i'w cynnwys yn ein cais Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2025/27. Mae adran ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth hefyd wedi cael ei hychwanegu at fodiwl e-ddysgu Sefydlu Corfforaethol y staff - ystyr y ddyletswydd a'r hyn y mae'n ei olygu i weithwyr y Cyngor.

- Gwnaed penderfyniad yn y Cabinet i ddod â gwasanaethau gwastraff yn fewnol. Mae Bwrdd Pontio Gwastraff yn cyfarfod bob pythefnos.

- Mae'r ganolfan ailgylchu yn Llandudwg bellach wedi'i datgomisiynu wedi i'r ganolfan newydd agor yn y Pîl.

# Amcan Llesiant Chwech

6



- Mae Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) 2024-2028 bellach wedi'i gwblhau a'i lofnodi gan Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet. Mae wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

- Mae tri grŵp rhwydwaith staff wedi cael eu sefydlu ar gyfer y Menopos, Anabledd ac LHDTC+. Cytunwyd ar gylchoedd gorchwyl ac mae gwybodaeth am rwydweithiau staff yn cael ei hyrwyddo ymhlith y staff. Mae Fforwm y Gymraeg wedi cael ei sefydlu ar gyfer staff ar bob lefel o ran rhuglder.

- Mae Strategaeth Cyfranogi ac Ymgysylltu wedi cael ei gweithredu a'i chyhoeddi.

- Cafodd yr Arolwg Cenedlaethol o Drigolion ei hyrwyddo'n frwd, a chaewyd yr arolwg gyda thros 3,000 o ymatebion. Mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi.

- Cwblhawyd Strategaeth Sero Net drafft ym mis Mawrth 2025, rhoddwyd adborth gan swyddogion a'r Pwyllgor Craffu i'r Ymddiriedolaeth Garbon a rhagwelir y bydd y strategaeth ddiwygiedig yn cael ei chwblhau ym mis Mai 2025. Bydd y strategaeth wedyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd cyn iddi gael ei mabwysiadu'n ffurfiol.

- Cynhaliom beilot yn 2024 yn llyfrgelloedd Cwm Garw a Bro Ogwr i roi cymorth ychwanegol i drigolion mewn llyfrgelloedd. Roedd y galw'n eithriadol o isel, ac rydym wedi penderfynu canolbwyntio ar sut i wella perfformiad ar draws yr holl sianelau cwsmeriaid, er mwyn gwella'r modd yr ydym yn ymdrin â'r galw gan gwsmeriaid.

- Mae Llyw-wyr Cymunedol wedi'u lleoli yng Nghymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO), gyda chefnogaeth o'r Gronfa Buddsoddi Integreiddio Rhanbarthol. Mae BAVO yn cynnal amrywiaeth o rwydweithiau cymunedol fel rhan o ymagwedd atal a llesiant o fewn cymunedau.

- Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid Cwm Taf Morganwg (CTM) a sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys prosiect WISE CTM, gan weithio ar symleiddio gwasanaethau iechyd a llwybrau presgripsiynau cymdeithasol. Rhoddwyd cymorth i gynyddu cydnerthedd cymunedau o fewn gwasanaethau dementia. Buom yn dathlu'r Wythnos Pobl Hŷn gyda gweithgareddau am ddim, gan gynnwys gweithdai'r celfyddydau, dangosiadau sinema a disgo distaw wedi'u cynnal gan ein hymddiriedolaeth ddiwylliannol, Awen.

# Amcan Llesiant Saith

7



- Agorodd cyfleuster bysiau Metrolink ym Mhorthcawl ym mis Tachwedd2024.
- Mae proses dendro i ddyfarnu'r contract am y gwaith adeiladu i Ailddatblygu Pafiliwn y Grand Porthcawl wedi'i chwblhau.
- Cafodd gwaith i adnewyddu dwy ardal chwarae ar hugain ei gwblhau, gan drosglwyddo'r ardaloedd yn ôl i'r gymuned.
- Dyrannwyd dros £13 miliwn drwy'r Grant Tai Cymdeithasol a Grant y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol i gyflenwi 108 o dai.
- Mae aelodaeth hamdden egnïol wedi cynyddu yng Nghanolfan Bywyd Dyffryn Garw Bydd gwaith cyfalaf Canolfan Bywyd Bro Ogwr wedi'i gwblhau'n fuan gan alluogi defnydd mwy strwythuredig o'r cyfleusterau, ac mae buddsoddiad ychwanegol i newid y brif fynedfa ac uwchraddio'r neuadd chwaraeon wedi'i sicrhau.
- Mae cwmni allanol wedi cael ei gomisiynu i'n helpu i ddatblygu Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol hirdymor a Strategaeth Hamdden ac mae gwaith ymgysylltu wedi cael ei gwblhau. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal i drafod meysydd polisi allweddol, gan gynnwys ysgolion bro, trosglwyddo asedau cymunedol, teithio llesol, digonolrwydd darpariaeth chwarae a'r asesiad o anghenion y boblogaeth.
- Rydym wedi datblygu asesiad a chynllun gweithredu digonolrwydd darpariaeth chwarae drafft gyda ffocws ar bolisi a gweithredu ar draws y cyngor cyfan.
- Rydym bellach wedi cwblhau'r broses o roi Prydau Am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd ar waith i holl ddisgyblion cynradd Pen-y-bont ar Ogwr.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i ehangu rhywfaint ar gynllun Dechrau'n Deg (26 o leoedd ychwanegol). Mae pum darparydd newydd wedi cael eu recriwtio i gefnogi darpariaeth barhaus rhaglen gofal plant Dechrau'n Deg.
- Mae gennym fodel gweithredu newydd ar gyfer y Tîm Amlddisgyblaethol sy'n cynnwys swyddogaeth sgrinio a brysbennu yn seiliedig ar faint o frys sydd i fodloni'r angen.

# Sut mae'r cyngor yn perfformio yn 2024/25?

Bob pum mlynedd mae'r cyngor yn cyhoeddi Cynllun Corfforaethol newydd. Cyhoeddwyd Cynllun Corfforaethol newydd ym mis Ebrill 2023. Mae'n disgrifio blaenoriaethau'r cyngor, pam eu bod nhw'n bwysig a sut y bydd cynnydd yn cael ei fesur. Mae'r blaenoriaethau, neu'r amcanion llesiant, yn dangos ein hymrwymiadau i drigolion a'n cyfraniad at amcanion llesiant Cymru –

## Amcanion Llesiant eich Cyngor

| **Nod Llesiant Cenedlaethol** | Diogelu ein rhai mwyaf agored i niwed | Gwaith teg, swyddi medrus a threfi ffyniannus | Creu cymunedau ffyniannus yn y Cymoedd | Helpu pobl i wireddu eu potensial | Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur | Gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed a'u cysylltu | Cynorthwyo pobl i fod yn iach ac yn hapus |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Cymru gydnerth** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Cymru iachach** | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | ✓ | | ✓ | | | ✓ | |
| **Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |

Yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy, pan ddatblygon ni'r cynllun corfforaethol 5 mlynedd hwn, meddyliom yn ddwys sut i weithio'n wahanol er mwyn ymateb i faterion tymor byr a chanolig, fel yr argyfwng ariannol, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol a helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial ar gyfer y tymor hir.

Bob blwyddyn, byddwn yn dyrannu adnoddau drwy ddatblygu cyllideb flynyddol. Pennir y gyllideb yn unol â blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyhoeddi cynllun cyflawni manwl sy'n esbonio blaenoriaethau penodol y flwyddyn a sut y byddwn yn eu mesur.

Mae gennym broses er mwyn mesur ein llwyddiant o ran cyflawni ein blaenoriaethau. Rydym yn defnyddio –

- dangosyddion perfformiad,
- tystiolaeth o gyflawni ein prosiectau,
- adborth gan drigolion, busnesau, a phartneriaid, a
- barn ein rheoleiddwyr a'n harchwilwyr.

Mae pob rhan o'r cyngor yn tynnu'r wybodaeth hon at ei gilydd ac yn ei chyflwyno i gynghorwyr sy'n edrych ar y data, yn gwirio'r data ac yn gofyn cwestiynau. Gwnaed hyn ar gyfer y flwyddyn 2024/25 ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2025.

Byddwn yn defnyddio'r holl wybodaeth hon i lunio barn gyffredinol ar gynnydd yn erbyn pob un o'n nodau a'n hamcanion llesiant drwy ddefnyddio'r raddfa hon -

## Beth mae'r Statws hwn yn ei olygu?

| | Perfformiad cyffredinol / hunanasesiad | Ymrwymiadau, prosiectau neu gynlluniau gwella | Dangosyddion Perfformiad |
|---|---|---|---|
| CWBLHAWYD (GLAS) | Amherthnasol | Prosiect wedi'i gwblhau | Amherthnasol |
| ARDDERCHOG (GWYRDD) | Perfformiad ac ymarfer cryf a chynaliadwy iawn | Fel y cynlluniwyd -o fewn amserlenni, o fewn y gyllideb, gan sicrhau canlyniadau | Ar y targed a pherfformiad wedi gwella / ar ei orau |
| DA (MELYN) | Nodweddion cryf. Efallai fod mân agweddau i'w gwella | Mân broblemau. Mae un o'r canlynol yn berthnasol - mae'r dyddiadau terfyn wedi llithro, y prosiect yn mynd y tu hwnt i'r gyllideb, neu'r sgôr risg yn cynyddu | Ar y targed |
| DIGONOL (AMBR) | Mae angen gwella. Mae'r cryfderau'n gwrthbwyso'r gwendidau, ond mae angen gwella agweddau pwysig | Problemau – Mae mwy nag un o'r canlynol yn berthnasol - mae'r dyddiadau terfyn wedi llithro, y prosiect yn mynd y tu hwnt i'r gyllideb, neu'r sgôr risg yn cynyddu | Oddi ar y targed (o fewn 10% o'r targed) |
| ANFODDHAOL (COCH) | Angen gwella ar frys.Y gwendidau'n gwrthbwyso'r cryfderau. | Problemau sylweddol - torri dyddiadau terfyn, y prosiect yn costio mwy na'r gyllideb, sgôr risg wedi codi i lefel ddifrifol neu waeth | Oddi ar y targed (wedi methu'r targed o 10%+) |

# Trosolwg o Berfformiad


I gefnogi'r Cynllun Corfforaethol pum mlynedd newydd, datblygwyd cynllun cyflawni blwyddyn o hyd ar gyfer 2024/25. Roedd y cynllun yn cynnwys 7 amcan llesiant wedi'u cefnogi gan 41 o nodau. Byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn y rhain drwy edrych ar –

- 80 o ymrwymiadau sy'n mesur ein prosiectau a'n mentrau, er enghraifft, agor cyfleuster bysiau metrolink newydd ym Mhorthcawl.
- 108 o ddangosyddion perfformiad i fesur ein gweithgareddau o ddydd i ddydd, er enghraifft, casglu ac ailgylchu gwastraff eich cartref.


Dyfarnwyd lliw glas, coch, ambr, melyn neu wyrdd i bob un o'r rhain er mwyn dangos ichi a ydym yn llwyddo i'w cyflawni neu'n cael hynny'n anodd, ac mae'r ddau graff isod yn rhoi crynodeb o'r rhain.

Ochr yn ochr â'r hunanasesiad, rydym wedi cyhoeddi dogfen berfformiad fer ar wahân sy'n manylu ar ein cynnydd yn erbyn pob Dangosydd Perfformiad ac ymrwymiad.

## Graff 1 Ein cynnydd o ran ein hymrwymiadau / prosiectau




## Graff 2 Ein cynnydd o ran ein dangosyddion perfformiad




# Amcan Llesiant 1

**SGÔR**

**Bwrdeistref Sirol lle rydym yn amddiffyn y rhai sy'n fwyaf agored i niwed**

**DA**




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi mwy o fanylion ichi am ein cynnydd o dan bob nod yn yr amcan llesiant hwn.

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Darparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uchel i blant ac oedolion a gwasanaethau cymorth cynnar i bobl sydd eu hangen** | DA | Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i wneud cynnydd da o ran cyflawni ein blaenoriaethau a'n hymrwymiadau.<br><br>Mae gennym gynllun strategol 3 blynedd clir ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, sefyllfa sydd wedi gwella'n sylweddol yng ngweithlu'r plant a gostyngiad i'r gweithlu asiantaeth. Mae'r model ymarfer Arwyddion Diogelwch yn cael ei ymwreiddio. Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi lleihau'n gyson ac mae ar y targed. Rydym wedi sicrhau gostyngiad diogel i nifer y plant sydd â phrofiad o ofal. Mae 100% o ofalwyr (o fewn y gwasanaethau plant) wedi cael cynnig asesiad gofalwr. Cafwyd gwelliannau pellach i amseroldeb ymweliadau â phlant sydd â phrofiad o ofal a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae gennym rai heriau o ran perfformiad gyda phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, lleoliadau a maethu mewnol. Mae'r gwariant ar leoliadau plant yn llawer uwch na'r gyllideb sydd wedi'i dyrannu ar gyfer y gwasanaeth. Cafwyd arolygiadau rheoleiddio cadarnhaol o gartrefi gofal preswyl plant. Ein her fwyaf yw argaeledd lleoliadau maethu a phreswyl sydd wedi golygu bod nifer fach o blant yn cael cefnogaeth drwy drefniadau gweithredu heb gofrestriad. Mae Strategaeth Comisiynu Lleoliadau newydd wedi cael ei datblygu i fynd i'r afael â hyn.<br><br>Ceir Cynllun Strategol 3 blynedd clir hefyd ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Cafwyd arolygiadau rheoleiddio cadarnhaol mewn gofal cymdeithasol i oedolion. Mae 509 o becynnau ailalluogi wedi cael eu cwblhau, gan helpu pobl i gadw neu adennill eu hannibyniaeth, er bod y ganran a liniarodd yr angen am gymorth wedi gwaethygu. Ceir canlyniadau cadarnhaol mewn gwasanaethau haen 1 a haen 2, ond mwy o heriau mewn gwasanaethau arbenigol haen, yn enwedig y tîm anableddau dysgu cymunedol, lle mae heriau'r gweithlu yn effeithio ar ymarfer a pherfformiad. |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Darparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uchel i blant ac oedolion a gwasanaethau cymorth cynnar i bobl sydd eu hangen** | DA | Cafwyd rhai gwelliannau mewn perfformiad, ond mae'r oedi ar lwybrau gofal yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Bu cynnydd da yn y prosiect comisiynu gyda gofal cymhleth i gynnal adolygiadau manwl o becynnau gofal a threfniadau comisiynu. Mae adolygiadau gwasanaeth manwl wedi'u cynnal o lety rheoleiddiedig (cartrefi gofal, gofal ychwanegol a byw â chymorth) a chyfleoedd yn ystod y dydd. Mae canran yr ymholiadau i ddrws ffrynt Gofal Cymdeithasol i Oedolion sy'n arwain at wybodaeth a chyngor yn unig wedi cynyddu eto ac wedi cyrraedd ein targed.<br><br>Mae nifer y bobl sy'n cyrchu eiriolaeth annibynnol o fewn Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion yn llawer is na'r targed, ac rydym yn gweithio i wella capasiti a darpariaeth.<br><br>Rydym wedi cwblhau mwy o gynlluniau cymorth tîm o amgylch y teulu ac mae caran y cynlluniau sy'n cau â chanlyniad cadarnhaol yn debyg i'r llynedd ar 82% Bu gostyngiad o 67% yn nifer yr achosion sy'n camu i fyny i'r gwasanaethau statudol - canlyniad allweddol sy'n amlygu effeithiolrwydd ein gwaith ataliol. |
| **Helpu pobl mewn tlodi i gael y cymorth sydd ei angen arnynt neu'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo** | ARDDERCHOG | Mae ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn effeithlon, ac ymdrinnir â cheisiadau'n brydlon. Mae'n cymryd pedwar diwrnod ar bymtheg (19) i brosesu cais newydd i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.<br><br>Rydym yn rhoi cyngor a chefnogaeth drwy ein gwasanaeth cyngor a chymorth ariannol (FASS). Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyngor a chymorth i reoli neu leihau dyledion yr aelwyd, gan wneud hynny i 94% o'r bobl sy'n cysylltu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn helpu pobl i fanteisio ar fudd-daliadau a lwfansau, a gwelodd 96% o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth gynnydd i'w incwm drwy geisiadau am fudd-daliadau neu lwfansau ychwanegol neu uwch - cyfanswm o £1.7 miliwn o enillion mewn incwm eleni. |
| **Cynorthwyo pobl sy'n wynebu digartrefedd i ddod o hyd i le i fyw** | DIGONOL | Mae newidiadau i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn golygu bod argyfwng o ran y cyflenwad o dai a'r galw amdanynt ledled Cymru. Ceir galw mawr iawn am wasanaethau digartrefedd ac mae ein cyflenwad o lety (yn enwedig mathau penodol o lety fel cartrefi mwy a chartrefi hygyrch) yn isel iawn. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gallu helpu pobl mor gyflym ag y dylem, a'n bod yn dibynnu mwy ar lety dros dro nag yr hoffem. Er hynny, cafodd cynllun tai ar gyfer anghenion cymhleth ei gomisiynu, ac mae bellach yn weithredol. Rydym wedi cynyddu'r defnydd o'r sector rhentu preifat, a meithrin perthnasoedd â'r sector hwnnw, drwy fabwysiadu Cynllun Lesio Llywodraeth Cymru, ac yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio o'r newydd. Rydym wedi prynu llety i'w ddefnyddio fel math mwy addas o lety dros dro i'r rhai sy'n ddigartref. Bu cynnydd pellach o 12% yn nifer y cyflwyniadau digartref yn 2024/25 o gymharu â'r llynedd.<br><br>Mae cyfraddau atal digartrefedd wedi gwella, ac rydym wedi cyrraedd ein targed ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn deillio o'r cyfnodau rhybudd hirach a gyflwynwyd yn y Ddeddf Rhentu Cartrefi ac o waith gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i atal digartrefedd drwy sicrhau bod y rhai sy'n wynebu digartrefedd yn cael blaenoriaeth ar gyfer tai. |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gael y gorau o'u haddysg** | DIGONOL | Mae nifer y disgyblion ar y rhestrau aros am ddarpariaeth arbenigol yn llawer uwch na'n targed. Mae hyn yn cynnwys atgyfeiriadau blaenorol lle na fu'r gefnogaeth mewn ysgolion prif ffrwd yn llwyddiannus. Mae hyn wedi arwain at gynnydd pellach yn nifer y disgyblion sydd angen lleoliadau arbenigol.<br>Rydym wedi datblygu cynllun pum mlynedd i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau cymorth ADY, darpariaeth arbenigol ac ysgolion. Cafwyd hyd i gyllid ychwanegol er mwyn bodloni'r galw am leoedd ADY, ac rydym yn datblygu tair canolfan adnoddau dysgu newydd.<br>Rydym yn cyflwyno system Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar-lein, ond mae hyn wedi'i ohirio oherwydd problemau wrth brofi'r system honno. Mae'n debygol y bydd ar waith yn fuan yn 2025/26.<br>Er mwyn cydymffurfio â Chod ADY Cymru, dylai pob (100%) disgybl blwyddyn 9 ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd â chynllun pontio ar waith dderbyn adolygiad blynyddol erbyn 31 Mawrth ym mhob blwyddyn ysgol gyfredol. Nid ydym wedi cyrraedd y targed hwn. Rydym wedi cyflawni 74.3% oherwydd diffyg presenoldeb rhanddeiliaid allweddol, aildrefnu a chapasiti'r Cydgysylltydd ADY (CADY).<br>Mae Estyn wedi arolygu Ysgol Heronsbridge a'r Bont gyda chanlyniadau rhagorol ar gyfer y naill a'r llall.<br>Rydym wedi defnyddio Grant Cyfalaf ADY Llywodraeth Cymru yn effeithiol i wella'r ddarpariaeth (gan gynnwys ystafelloedd synhwyraidd ac ardaloedd chwarae awyr agored) ar draws ysgolion a lleoliadau arbenigol. |
| **Diogelu ac amddiffyn pobl sydd mewn perygl o niwed** | DA | Mae strategaeth ddiogelu ranbarthol wedi'i chytuno ac mae gennym gynllun lleol sy'n ei hadlewyrchu.<br>Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn parhau i oruchwylio arferion diogelu ar draws y Cyngor. Mae archwiliad mewnol wedi rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch trefniadau diogelu corfforaethol.<br>Mae bron bob penderfyniad atgyfeirio ar gyfer diogelu plant yn cael ei wneud o fewn y targed o 24 awr, ond 100% yw ein targed. Mae 84% o ymchwiliadau amddiffyn plant yn cael eu cwblhau o fewn y graddfeydd amser gofynnol, felly rydym wedi cyrraedd targed eleni. Mae'r amser aros cyfartalog ar restr aros y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) wedi lleihau eto i 10 diwrnod ac rydym bellach yn cyrraedd ein targed.<br>Ond mae canran yr ymholiadau diogelu oedolion sy'n derbyn ymateb cychwynnol o fewn 7 diwrnod gwaith wedi gwella, er ei bod yn is na'r targed. Rydym wedi cyflwyno system fonitro wythnosol fel y gallwn uwchgyfeirio materion yn ôl yr angen.<br>Nid yw pob aelod o staff yn defnyddio'r modiwl e-ddysgu diogelu, er bod y gyfradd gwblhau wedi cynyddu i 88%, ond rydym yn newid y system i gydnabod dysgu blaenorol. |
| **Helpu pobl i fyw'n ddiogel gartref drwy wneud newidiadau i'w cartrefi** | ANFODDHAOL | Cafodd proses y Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) ei chymryd yn fewnol yn 2021. Mae achosion hanesyddol gydag asiantau bellach wedi'u clirio (yn aml ar ôl blynyddoedd lawer) felly mae hyn wedi cael effaith ar yr amser cyfartalog i gwblhau DFG. Mae'r galw'n dal i fod yn uwch na'r hyn y gallwn ei reoli o fewn y cyllidebau presennol.<br>Ond mae fframwaith caffael y Grant Cyfleusterau i'r Anabl bellach yn weithredol. Gwariwyd y gyllideb yn llawn a sicrhawyd £90,000 ychwanegol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a ganiataodd inni addasu 15 o gartrefi eraill. Cwblhawyd cyfanswm o 238 o addasiadau, cynnydd o 5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.<br>Roedd 99% o'r rhai a oedd yn derbyn gwasanaeth yn fodlon ar yr addasiadau i'w cartrefi ac yn teimlo eu bod wedi'u helpu i aros yn eu cartref eu hunain yn annibynnol ac yn ddiogel. |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Cefnogi partneriaid i gadw cymunedau'n ddiogel** | **DA** | Mae system a gweithredwyr teledu cylch cyfyng y cyngor wedi riportio dros 1,000 o ddigwyddiadau i Heddlu De Cymru i'w helpu i ymdrin â digwyddiadau a chadw'r cyhoedd yn ddiogel.<br>Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Cwm Taf Morganwg wedi cael ei sefydlu; Mae Cylch Gorchwyl wedi cael ei ddatblygu; ac mae'r bartneriaeth wedi cyfarfod.<br>Mae bron bob un (99%) o ddefnyddwyr gwasanaeth cam-drin domestig Assia yn nodi eu bod yn teimlo'n fwy diogel yn eu gwerthusiad ymadael. Cysylltwyd â 100% o ddioddefwyr cam-drin domestig a hysbysiadau diogelu'r cyhoedd risg uchel a dderbyniwyd gan y gwasanaeth o fewn 48 awr, a chysylltwyd â 100% o ddioddefwyr cam-drin domestig a hysbysiadau diogelu'r cyhoedd risg ganolig o fewn 72 awr.<br>Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwneud cyflwyniadau i ysgolion, Timau Cymorth Cynnar a Gwasanaethau Cymorth i Ddisgyblion i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ataliol y mae'n ei gynnig. Mae amryw o weithgareddau wedi cael eu cynnal ac wedi cyfrannu at wyro plant sy'n troseddu rhag troi'n droseddwyr, gan leihau'n sylweddol nifer y rhai sy'n cael eu derbyn am y tro cyntaf i'r system cyfiawnder troseddol.<br>Mae tua 76% o staff y cyngor wedi cwblhau hyfforddiant Trais yn Erbyn Menywod, sy'n is na'n targed. |

# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?

- Parhau i weithredu cynlluniau strategol tair blynedd y Gwasanaethau Plant ac Oedolion.
- Gweithredu'r Strategaeth Comisiynu Cymorth Cynnar.
- Creu Grŵp Gofalwyr Strategol i sicrhau bod barn gofalwyr di-dâl yn cael ei chlywed.
- Cymryd rhan ym Mheilot Llywodraeth Cymru ar gyfer Defnyddio Budd-dal Awdurdod Lleol er mwyn canfod trigolion nad ydynt yn manteisio ar eu hawl i dderbyn cymorth ariannol, a chynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu i'w helpu.
- Datblygu ac ymgynghori ar bolisi dyrannu tai cymdeithasol newydd.
- Gwneud y mwyaf o'r gyllideb ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl fel y gallwn gwblhau cymaint o brosiectau â phosibl yn 2025/26
- Nodi ysgolion i gynnal tair canolfan adnoddau dysgu newydd – Dosbarth Arsylwi Cyfnod Sylfaen, Dosbarth Anogaeth Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Emosiynol, Cymdeithasol ac Ymddygiadol a chanolfan Addysg Adnoddau Awtistiaeth a Chyfathrebu Uwchradd (CARE). Agor y darpariaethau hyn ym mis Medi 2025.
- Rydym ar y trywydd iawn i fodloni gorchmynion cychwyn ADY erbyn 31 Awst 2025.
- Cynnal sesiwn ar y system CDU ar-lein ar gyfer Cydlynwyr ADY yn y fforwm nesaf ym mis Mai, gan brofi'r system cyn ei chyflwyno mewn ysgolion.
- Cwblhau camau o'r adolygiadau Cyfleoedd Dydd a Gwasanaethau ar sail Llety.
- Cwblhau ymchwiliad manwl i Ddiogelu Oedolion.

# Astudiaeth achos

## Cymorth Cynnar




Yn 2024/25 cafodd ein Gwasanaethau Cymorth Cynnar eu hintegreiddio yn ein Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r galw a'r atgyfeiriadau ar gyfer Cymorth Cynnar wedi bod yn cynyddu'n sylweddol. Rydym wedi gweithio'n galed i gryfhau'r cymorth cynnar a gynigir ac gwella canlyniadau i deuluoedd. Mae trefniadau drws ffrynt newydd wedi ein helpu i adnabod risg yn gynnar, gan alluogi timau i ymyrryd cyn i anghenion waethygu.

Mae cynllun peilot mapio yn Hwb y Gogledd wedi cael ei roi ar waith, gan ein helpu i ddeall anghenion teuluoedd a chydgysylltu cymorth. Rydym wedi gweithio gydag asiantaethau partner, a gwasanaethau iechyd, i wneud yn siŵr bod teuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol a phriodol. Drwy adnabod achosion yn gynharach, mae timau wedi gallu gwneud gwaith ataliol yn hytrach nag ymateb i argyfyngau. O ganlyniad i hyn i gyd, bu gostyngiad o 67% yn nifer yr achosion sy'n cael eu cyfeirio i'r gwasanaethau statudol, sy'n amlygu effeithiolrwydd y gwaith cynnar ac ataliol hwn. Mae mesurau effaith wedi dangos bod 96% o deuluoedd wedi dweud eu bod yn teimlo'n fwy abl i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hymddygiad a'u ffordd o fyw, a bod 94% o deuluoedd wedi dweud bod y teulu'n fwy gwydn.

# Amcan Llesiant 2

**Bwrdeistref Sirol a chanddi waith teg, swyddi crefftus o ansawdd uchel a threfi ffyniannus**

SGÔR: **DA**




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi mwy o fanylion ichi am ein cynnydd o dan bob nod yn yr amcan llesiant hwn.

| Nod | Statws | Perfformiad eleni |
|---|---|---|
| **Helpu ein trigolion i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith** | ARDDERCHOG | Mae Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi cymorth i bobl ddi-waith, ac i'r rhai sydd mewn gwaith ond yn profi anawsterau oherwydd lefel isel o sgiliau neu dlodi mewn gwaith. Eleni, aeth 453 o gyfranogwyr (sy'n uwch na'r targed o 233) ar raglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr i mewn i gyflogaeth. Dros gyfnod y flwyddyn, cofrestrwyd 1,778 o gyfranogwyr ar y rhaglen. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid fel adrannau eraill y Cyngor, yn enwedig y tîm niwroamrywiaeth ym mis Ionawr ar gyfer cynhadledd Llwybrau, i roi cymorth yn gysylltiedig â hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth. Rydym yn cyfeirio yn ôl yr angen ac yn cydweithio â gwasanaethau a phrosiectau eraill yn ôl yr angen. Mae'r Tîm Marchnata ac Ymgysylltu wedi'i hen sefydlu ac yn llwyddo i hyrwyddo Cyflogadwyedd.<br><br>Cwblhawyd rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn unol â gofynion y cyllidwr, a rhagorwyd ar fwy na 95% o dargedau, gyda Bwrdd y Rhaglen Economaidd yn goruchwylio. Gorffennwyd pob prosiect ar amser, ond cafwyd tanwariant o 11% o fewn y prosiect. |
| **Sicrhau bod ein pobl ifanc yn dod o hyd i swyddi neu mewn addysg neu hyfforddiant** | DIGONOL | Mae 678 o gyfranogwyr yn rhaglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael cefnogaeth i erbyn addysg neu hyfforddiant (yn erbyn targed o 409).<br><br>Mae canran y rhai sy'n gadael yr ysgol ar ôl blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn well na chyfartaledd Cymru, yn 5ed yng Nghymru, ond fymryn yn waeth na'r llynedd ar 1.9%.<br><br>Mae staff y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynychu digwyddiadau gyrfaoedd a diwrnodau agored colegau ac wedi cael mewnbwn mewn rhaglenni Diploma Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan roi cyflwyniadau ar weithio ym maes gofal cymdeithasol, a darparu gwybodaeth hefyd am lwybrau gwaith, rhaglenni prentisiaeth a gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol. |

| Nod | Statws | Perfformiad eleni |
|---|---|---|
| **Gwella canol ein trefi, gan eu gwneud yn fwy diogel a deniadol** | DA | Mae'r prosiect adnewyddu gwerth £8 miliwn ar Neuadd y Dref Maesteg wedi'i gwblhau ac agorwyd yr adeilad ym mis Tachwedd 2024. Cafodd yr adeilad rhestredig hwn ei adfer a'i ymestyn i greu canolfan gymunedol a chanolfan gelfyddydol a diwylliannol i Gwm Llynfi.<br>Mae pum prosiect wedi derbyn grantiau gwerth cyfanswm o dros £340k o Gynlluniau Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, i gyfrannu at adfywio canol ein trefi. Cyflawnwyd gwaith marchnata yn gysylltiedig â'r Grantiau Eiddo Masnachol sydd ar gael, gyda pheth cyllid dichonoldeb ar gael ar gyfer prosiectau yn ardaloedd y cymoedd drwy gydol y rhaglen.<br>Mae gwaith ymgynghori sylweddol wedi cael ei gyflawni ar y Strategaethau Creu Lleoedd newydd a mae gwaith yn parhau i farchnata'r cyllid sydd ar gael. |
| **Denu buddsoddiad a chefnogi busnesau lleol newydd a rhai sydd eisoes yn bodol** | ARDDERCHOG | Mae 94 o fusnesau newydd (o gymharu â tharged o 53) wedi cael eu cefnogi drwy gyngor, ceisiadau grant, deunydd ar y we, rhwydweithio wyneb yn wyneb a chyfleoedd yn gysylltiedig â digwyddiadau. Mae 37 o fusnesau (o'i gymharu â tharged o 21) wedi derbyn cymorth drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, sy'n cynrychioli galw uwch nag yr oeddem yn ei ddisgwyl.<br>Dyfarnwyd 68 o Grantiau Cychwyn Busnes yn 2024/25. Mae UK Steel Enterprises wedi rhoi cymorth i wella'r Grant Cychwyn Busnes a disgwylir y bydd o ddiddordeb i gyn-weithwyr TATA a chadwyn gyflenwi TATA. Cefnogwyd 27 o Grantiau Datblygu Busnes a 10 o Grantiau Dichonoldeb Busnes yn ystod y flwyddyn.<br>Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi'i ffurfio. Cwblhawyd Cytundeb Cyflawni drafft ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd erbyn mis Medi 2024, wedi'i fonitro gan y Fforwm Cyfarwyddwyr Economaidd. Cwblhawyd gwaith ar y cyd â'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i greu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ym mis Rhagfyr 2024. |
| **Gwneud y cyngor yn lle deniadol i weithio ynddo** | DA | Eleni dyfarnwyd statws Arweinydd - Hyderus o ran Anabledd inni. Rydym yn parhau i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac yn hyrwyddo ystod o fuddion fel gostyngiadau i'r staff, ein platfform iechyd a llesiant ac opsiynau am gyflogaeth hyblyg.<br>Roedd 22 o brentisiaid yn cael eu cyflogi ar draws y sefydliad yn ystod 2024/25. Mae modiwl e-ddysgu cynllunio'r gweithlu wedi cael ei lunio, a phecyn cymorth i reolwyr yn cael ei ddatblygu.<br>Roedd y gyfradd ymateb i arolwg staff y llynedd yn isel. Rydym wedi cynnal grwpiau ffocws staff i ddarganfod pam ac i edrych ar eu pryderon. Byddwn yn defnyddio'r rhain i newid y ffordd rydym yn ymgysylltu â staff. Mae sianeli cyfathrebu newydd wedi cael eu cyflwyno, gan gynnwys neges chwarterol y Prif Weithredwr, nodyn briffio misol i reolwyr a fforwm rheolwyr. |
| **Sicrhau bod cyflogaeth yn deg, yn gyfartal ac yn talu'r cyflog byw gwirioneddol** | ARDDERCHOG | Rydym wedi gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi, gan annog cyflogwyr i gynnig mwy o hyfforddiant ac i ddarganfod a ydynt yn Gyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol. Rydym wedi nodi bod 257 o gyflogwyr yn y Fwrdeistref wedi'u hachredu ar gyfer Cyflog Byw Gwirioneddol.<br>Rydym wedi gweithredu rheolau gweithdrefn contractau newydd yn unol â Deddf Caffael y DU. Mae gwerth cymdeithasol a lleihau carbon wedi cael eu cryfhau fel ystyriaethau yn ein tendrau. Mae Protocol Diogelu i Gontractwyr hefyd wedi'i gynnwys i sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol o'u dyletswyddau i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Rydym wedi datblygu gwefan allanol ar gyfer tendrau a chaffael, gan gynnwys Cofrestr Contractau Corfforaethol a chanllaw newydd 'Gwerthu i'r Cyngor' er mwyn helpu cyflenwyr i gynnal busnes â ni. Rydym wedi datblygu a gweithredu Datganiad Caethwasiaeth Fodern a thelerau ac amodau safonol i'w defnyddio ar draws y cyngor. |

# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?

- Parhau â'n Rhaglen Cyflogadwyedd gynhwysfawr.
- Dyfarnu grantiau o Gynllun Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, i gyfrannu at adfywio canol ein trefi.
- Datblygu ymhellach gynlluniau ar gyfer ardal adfywio glannau Porthcawl
- Rydym yn cynnal Grantiau Cychwyn Busnes a chyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu drwy Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr.
- Cynnig cyfleoedd am fasnachu arbrofol byrdymor, drwy 'Am gyfnod cyfyngedig yn unig'.
- Gweithredu pecyn gweithgareddau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer y flwyddyn bontio, 2025-26, fel y cytunwyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2025.
- Bydd Gwasanaeth Cerddoriaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn datblygu cysylltiadau ymhellach â phartneriaid i ehangu'r ddarpariaeth ddysgu a gynigir, gan gynnwys ymweliad aelodau o Gerddorfa Genedlaethol Cymru y BBC â Phen-y-bont ar Ogwr ym mis Mai 2025 i berfformio dau gyngerdd i ddisgyblion.
- Cwblhau'r newid i arolwg staff bob dwy flynedd, a ategir gan arolygon wedi'u teilwra i staff rheng flaen ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

# Astudiaeth achos

## Lleihau ein gweithlu asiantaeth yn y Gwasanaethau Cymdeithasol




Yn 2024/25 rydym wedi recriwtio'n rhyngwladol a 'meithrin ein gweithwyr ein hunain' er mwyn lleihau ein gweithlu asiantaeth. Rydym wedi hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal cymdeithasol drwy ysgolion a cholegau, Gyrfa Cymru, canolfannau gwaith a'n Rhaglen Gyflogadwyedd ein hunain.

Rydym wedi diffinio a gwella llwybrau dilyniant, gan gynnwys lleoliadau gwaith a phrentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi a datblygu, a gradd mewn gwaith cymdeithasol.

Rydym hefyd wedi recriwtio 13 o weithwyr cymdeithasol rhyngwladol, gan ennill gwobr anrhydeddus Gofal Cymdeithasol Cymru am 'Ddatblygu ac ysbrydoli'r gweithlu'. Mae'r holl waith hwn wedi golygu bod ein gweithlu gweithwyr cymdeithasol asiantaeth wedi gostwng o fwy na 40% ym mis Mawrth 2023 i 9% ym mis Mawrth 2025, a hefyd wedi'n helpu i gadw staff a gwella profiadau ein gweithlu.

# Amcan Llesiant 3

| Amcan Llesiant 3 | SGÔR |
|---|---|
| **Bwrdeistref Sirol â chymunedau sy'n ffynnu yn y Cymoedd** | **DIGONOL** |




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi mwy o fanylion ichi am ein cynnydd o dan bob nod yn yr amcan llesiant hwn.

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Buddsoddi yng nghanol trefi, gan gynnwys canol tref Maesteg** | ARDDERCHOG | Mae Cynllun Creu Lleoedd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer Maesteg ac ymgynghoriad wedi'i gynnal arno. Mae bellach yn barod i'w gymeradwyo. Bydd yn llywio penderfyniadau buddsoddi a pholisi a fydd yn llunio dyfodol y dref. Bydd yn cefnogi ceisiadau am gyllid ar gyfer prosiectau ac yn dangos yr angen a'r cyfleoedd am weithgarwch i gefnogi canol y dref.<br><br>Mae'r Grant Gwella Eiddo Masnachol ar y gweill gyda thros £168,000 wedi'i dalu allan yn erbyn saith eiddo i wella a chydgrynhoi'r stryd fawr mewn ardaloedd masnachol ar draws ardaloedd ein cymoedd. Dyfarnwyd grantiau yng Nghwm Ogwr, Cwm Garw, Cwm Llynfi, Pencoed a'r Pîl. Mae enghreifftiau'n cynnwys Deintyddfa Deuluol Cwm Ogwr a Chlwb Bocsio Ogwr; lle rhoddwyd cefnogaeth i gynnal ffryntiau gweithredol ar y stryd fawr a chadw buddion a gwasanaethau iechyd yn y dyffryn. |
| **Creu mwy o swyddi yn y Cymoedd** | DIGONOL | Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran datblygu Strategaeth Adfywio'r Cymoedd. Mae'r ddogfen bellach ar ei drafft terfynol yn barod i'w rhannu er mwyn ei chwblhau. Ar ôl ei mabwysiadu'n ffurfiol, gallwn ei defnyddio fel offeryn i ddatblygu cynigion ariannu.<br><br>Mae trafodaethau'n dal i barhau ynghylch Menter Porth Gogledd y Cymoedd bron i ddwy flynedd ers dechrau. Mae cyllid yn dal heb ei ryddhau i ddatblygu unedau busnes y ceir angen mawr amdanynt yn y cymoedd. |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Gwella addysg a sgiliau yn y cymoedd** | DIGONOL | Mae Meithrinfeydd Dechrau'n Deg ym Mhontycymer, Nant-y-moel a Bro Ogwr bellach yn gweithredu.<br><br>Mae'r broses dendro ar gyfer y cyfle i agor darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Metws wedi'i chwblhau, a darparydd a ffafrir wedi'i ddewis. Mae'r broses dendro ar gyfer darpariaeth Melin Ifan Ddu wedi wynebu oedi, ac fe'i cynhelir hyd fis Mai 2025. |
| **Buddsoddi mewn mannau gwyrdd a chefnogi twristiaeth i'r cymoedd** | DA | Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran datblygu Strategaeth Adfywio'r Cymoedd. Mae'r ddogfen bellach ar ei drafft terfynol yn barod i'w rhannu er mwyn ei chwblhau. Ar ôl ei mabwysiadu'n ffurfiol, gallwn ei defnyddio fel offeryn i ddatblygu cynigion ariannu.<br><br>Rydym wedi buddsoddi mewn parciau yn y cymoedd gyda phum man chwarae i blant wedi'u hadnewyddu, gan gynnwys cyfleusterau hygyrch. Cafwyd buddsoddiad sylweddol hefyd i adnewyddu cyrtiau tennis mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Tennis Lawnt, gan gynnwys y cyrtiau ym Mharc Llesiant Maesteg a Pharc Caedu. |
| **Annog datblygiad cartrefi fforddiadwy newydd yn y cymoedd** | DIGONOL | Rydym yn cyfarfod â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) yn rheolaidd i hyrwyddo tai cymdeithasol newydd yn y cymoedd. Ystyrir ardaloedd y cymoedd yn unol â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol; mae safleoedd yn y cymoedd wedi'u cynnwys ar y rhaglen ddatblygu a'r llif datblygu ar gyfer y dyfodol.<br><br>Dim ond dau o gartrefi (yn erbyn targed o 20) fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd gan RSLs yn y cymoedd eleni, er bod 13 wedi cael eu hadeiladu neu eu caffael, ac yn barod i symud i mewn iddynt yn fuan.<br><br>Mae datblygiad 180 o gartrefi newydd ar hen safle Ystad Ddiwydiannol Heol Ewenni yn parhau, ond mae'r cynnydd yn arafach nag a gynlluniwyd. Mae'r broses o werthu'r tir i ddatblygwr tai yn cael ei gwblhau. |

# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?

- Cymeradwyo a mabwysiadu'r Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Maesteg.
- Parhau i ddyfarnu Grantiau Gwella Eiddo Masnachol i wella a chyfnerthu'r stryd fawr mewn ardaloedd masnachol ar draws ein cymoedd.
- Cwblhau a mabwysiadu Strategaeth Adfywio'r Cymoedd.
- Parhau i weithio i ryddhau cyllid ar gyfer unedau busnes yn y cymoedd drwy Fenter Gogledd y Cymoedd.
- Gweithredu'r cynllun cyflawni arfaethedig i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg yn gyffredinol (cam tri) o fis Ebrill 2025 ymlaen.
- Cwblhau'r broses dendro ar gyfer darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Melin Ifan Ddu.
- Cwblhau gwerthiant safle Heol Ewenni i ddatblygwr tai.

# Astudiaeth achos
## Neuadd y Dref Maesteg



Ar 20 Tachwedd 2024 agorodd Neuadd y Dref Maesteg ei drysau i'r cyhoedd, yn dilyn prosiect ailddatblygu gwerth miliynau o bunnoedd a gyflawnwyd gan y Cyngor a'n partneriaid yn Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen.

Mae'r adeilad 140 mlwydd oed wedi cael ei ddychwelyd i'w ogoniant blaenorol, ond bellach yn cynnwys atriwm gwydr newydd, llyfrgell a chanolfan dreftadaeth, theatr stiwdio a gofod sinema, caffi a bar mesanîn. Mae'r prif awditoriwm yn lleoliad celfyddydau perfformio amlddefnydd gyda lifft llwyfan, ystafelloedd gwisgo a bar.


Mae'r balconi wedi cael ei gadw a'i adnewyddu. Mae paentiadau hanesyddol gan Christopher Williams wedi cael eu hadfer a'u harddangos. Bellach mae un o'r lleoliadau diwylliannol gorau yng Nghymru gennym ni yng Nghwm Llynfi.

Ariannwyd y prosiect gan y Cyngor, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru gan gynnwys CADW, Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, Cyngor Tref Maesteg, Sefydliad Garfield Weston, Ymddiriedolaeth Davies, ac Ymddiriedolaeth y Pererin.



# Amcan Llesiant 4

| | SGÔR |
|---|---|
| **Bwrdeistref Sirol lle rydym yn helpu pobl i wireddu eu potensial** | **DA** |




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi mwy o fanylion ichi am ein cynnydd o dan bob nod yn yr amcan llesiant hwn.

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Darparu ysgolion diogel, cefnogol gydag addysgu o ansawdd uchel** | DIGONOL | Mae un ysgol wedi cael ei thynnu o gategori 'mesurau arbennig' Estyn, tra bod angen mesurau arbennig ar ysgol arall bellach yn dilyn arolygiad Estyn. Cyflwynwyd a chymeradwywyd y cynllun gweithredu ôl-arolygiad gan Estyn ym mis Chwefror 2025.<br><br>Mae pob ysgol wedi cwblhau archwiliadau diogelu, gyda 93% wedi'u graddio yn “wyrdd”. Bydd Diogelu yn eitem ar yr agenda yng nghyfarfodydd cyngor y myfyrwyr ac rydym yn anelu i sicrhau bod mwy o lywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant diogelu.<br><br>Mae gwaharddiadau ysgol cyfnod penodol yn cynyddu yn sgil newidiadau mewn ymddygiad ac anghenion o natur fwy cymhleth, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Mae grŵp wedi cael ei ffurfio i ganfod tueddiadau a themâu, gan gynnwys enghreifftiau o arfer gorau, er mwyn mynd i'r afael â thrais mewn ysgolion.<br><br>Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd yn parhau i gynyddu, ond mae presenoldeb yn yr ysgol uwchradd yn parhau i fod yn is na phresenoldeb disgyblion cynradd, ac mae'r ddau yn parhau i fod yn waeth na'n targed. Rydym yn cefnogi presenoldeb disgyblion ar draws pob ysgol.<br><br>Mae sgoriau cyfartalog 9 wedi'u capio ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11 (gan fesur canlyniadau TGAU neu gyfwerth) yn is na'r targed ond yn uwch na chyfartaledd Cymru, gan osod Pen-y-bont ar Ogwr yn y 9fed safle o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.<br><br>Drwy gydol y flwyddyn hon, mae ysgolion wedi cael cefnogaeth gydag amrywiaeth o ddysgu proffesiynol a hyfforddiant sgiliau digidol, ac mae Strategaeth Dysgu Digidol Ysgolion 2025/28 wedi cael ei datblygu.<br><br>Mae presenoldeb cymorth ieuenctid ar y cyfryngau cymdeithasol yn tyfu ond rydym yn disgwyl canlyniad cynnig i dreialu cyfrif TikTok corfforaethol. Mae fforwm digidol 'Eich Llais' wedi dod i ben ac roedd yn cynnwys 790 o gyfranogwyr. |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Ehangu cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg** | **DA** | Mae amrywiaeth o grwpiau, prosiectau a mentrau wedi cael eu sefydlu i gynyddu cyfleoedd i blant ddefnyddio'r Gymraeg, ond nid ydym wedi cyrraedd y targedau a osodwyd gennym ym mhob maes.<br><br>Canran y dysgwyr blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yw 8.83% ac mae'n parhau i ddangos tuedd i wella, ac mae canran y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau asesedig drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 hefyd wedi gwella gan gyrraedd 7.23%, sy'n dangos bod cyfran fwy o blant yn astudio mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae nifer y myfyrwyr y cyflwynwyd eu henwau i sefyll arholiad Safon Uwch Cymraeg ail iaith wedi gostwng ers y llynedd a'r targed wedi'i fethu.<br><br>Bu cynnydd sylweddol o ran cyflawni'r camau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau Cymraeg i Blant ym Mhorthcawl er mwyn helpu i baratoi am yr hwb gofal plant a'r egin-ysgol. Grwpiau rheolaidd fel tylino babanod, ioga babanod a'r Amser Rhigymau Cymraeg ym Maesteg, Y Sarn, tref Pen-y-bont ar Ogwr a'r Pîl, gyda 152 o grwpiau eleni, a phresenoldeb gan 1,460 o rieni. Mae 100% o ysgolion bellach yn ymwneud â'r Siarter Iaith a'r Siarter Iaith Gymraeg Campus. Bydd cynllun cyfathrebu yn helpu i ddathlu ysgolion sydd wedi derbyn gwobrau. Mae datganiad i'r wasg wedi'i gyhoeddi i ddathlu seremoni wobrwyo'r Siarter Iaith ym mis Mawrth 2025. |
| **Moderneiddio adeiladau ein hysgolion** | **DIGONOL** | Mae pob un o'r pum cynllun yn y camau dylunio a datblygu ac fe gafwyd cynnydd sylweddol o ran eu cymeradwyo, o ran sicrhau cyllid ac, mewn rhai achosion, o ran tendrau. Mae amrywiaeth o broblemau (gan gynnwys materion ecoleg, oedi i adolygiadau gan Lywodraeth Cymru, cymeradwyaeth gynllunio a chyllid) wedi effeithio ar raddfeydd amser y pum cynllun.<br><br>Mae'r dyluniad newydd ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Ogwr wedi symud yn ei flaen. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam Achos Busnes Llawn. Ym mis Tachwedd 2024, cymeradwyodd y Cyngor y cyllid cyfalaf ychwanegol sydd ei angen ar gyfer y cynllun. Mae materion ecolegol yn parhau i effeithio ar y safle, ac mae hyn wedi effeithio ar yr ymchwiliad i'r safle.<br><br>Mae Ysgol Heronsbridge hefyd wedi derbyn cymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam Achos Busnes Llawn. Ym mis Tachwedd 2024, cymeradwyodd y Cyngor y cyllid cyfalaf ychwanegol sydd ei angen ar gyfer y cynllun. Dechreuodd y broses dendro ym mis Mawrth. Bydd angen newid dyddiad agor yr ysgol.<br><br>Mae adeilad newydd Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig hefyd wedi derbyn cymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam Achos Busnes Llawn. Ym mis Tachwedd 2024, cymeradwyodd y Cyngor y cyllid cyfalaf ychwanegol sydd ei angen ar gyfer y cynllun. Cyflwynwyd y cais cynllunio ym mis Tachwedd 2024. Oherwydd heriau ac oedi, bydd rhaglen ddiwygiedig yn cael ei hystyried gan y Cabinet.<br><br>Mae newidiadau i'r cyllid ar gyfer Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr (yr ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Ferch o'r Sgêr a'r ysgol cyfrwng Saesneg newydd) wedi'u cymeradwyo a dyddiad agor yr ysgol wedi newid i fis Medi 2026. Mae'r cais cynllunio wedi'i gyflwyno a dechreuodd y broses dendro ym mis Chwefror 2025.<br><br>Mae newidiadau i'r cyllid ar gyfer yr ysgol cyfrwng Saesneg newydd â dau ddosbarth mynediad i gymryd lle Ysgolion Cynradd Afon Y Felin a Chorneli wedi'u cymeradwyo, ac mae dyddiad agor yr ysgol wedi'i newid i fis Medi 2026. Mae'r cais cynllunio wedi'i gyflwyno a dechreuodd y broses dendro ym mis Chwefror 2025. |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Denu a chadw pobl ifanc i weithio i CBSP** | DIGONOL | Rydym wedi ymgysylltu ag ysgolion drwy adroddiadau tymhorol y Cyfarwyddwr ac wedi bod yn bresennol mewn ffeiriau swyddi, digwyddiadau opsiynau a gyrfaoedd i hyrwyddo'r cynnig am brentisiaeth, gan gynnwys rolau penodol, e.e. prentisiaethau gweinyddu busnes, TG ac aml-fasnach. Mae gweithdai wedi cael eu cynnal ar wneud cais am swyddi prentisiaeth a sgiliau cyfweliad yn ogystal â digwyddiadau "Dragon's Den" a ffug-gyfweliadau.<br>Mae nifer y prentisiaid a gyflogir gan y cyngor wedi wedi gostwng o 46 yn 2023/24 i 22 yn 2024/25, ac eleni dim ond hanner y rhai a gwblhaodd eu prentisiaeth a aeth yn eu blaenau i gael rôl nad yw'n brentisiaeth oherwydd cyfyngiadau cyllidebol a'r rhewi mewn recriwtio. |
| **Cynnig gwasanaethau ieuenctid a rhaglenni gwyliau ysgol i'n pobl ifanc** | ARDDERCHOG | Cymerodd 540 o bobl ifanc ran mewn gweithgareddau wedi'u targedu at bobl ag anghenion ychwanegol neu amrywiol. Mae hyn yn llawer uwch na'r llynedd, ac yn well na'n targed.<br>Cymerodd dros 23,000 ran yn y fenter nofio am ddim genedlaethol yn ystod gwyliau'r ysgol ac ar benwythnosau, a oedd yn uwch na'r llynedd ac yn well na'n targed. Mae'r bartneriaeth Byw'n Iach wedi cefnogi 119 o aelwydydd agored i niwed i ddysgu nofio yn seiliedig ar atgyfeiriadau gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd.<br>Mae 20 o deuluoedd wedi cael eu hatgyfeirio a 63 o unigolion wedi cael cefnogaeth drwy ein dull "camu i fyny a chamu i lawr" ar gyfer gofal cymdeithasol lefel isel. Mae Cerdyn Aelodaeth Iechyd a Llesiant Halo, mewn partneriaeth â'r Cyngor, yn cefnogi 173 o blant maeth, 76 o bobl sydd wedi gadael gofal, pum unigolyn mewn lleoliad preswyl, 79 o gyfranogwyr cyfiawnder ieuenctid, 63 o oedolion ifanc a 142 o blant ac oedolion ifanc ag anabledd.<br>Cynhaliwyd chwe rhaglen Bwyd a Hwyl yn ystod gwyliau haf 2024 gyda 213 o blant yn elwa drwy fynychu. |
| **Gweithio gyda phobl i ddylunio a datblygu gwasanaethau** | ARDDERCHOG | Mae rhwydwaith Grŵp Rhwydwaith Cynhwysol Pen-y-bont ar Ogwr (BING) wedi cefnogi 20 o sefydliadau, gan greu dros 100 o gyfleoedd cymunedol, a chynorthwyo dros 211 o unigolion sy'n byw gydag anableddau yn y fwrdeistref.<br>Mae ein partneriaeth â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cefnogi 272 o sefydliadau trydydd sector, gan eu cefnogi i ddatblygu neu ddarparu cyfleoedd atal sy'n canolbwyntio ar "yr hyn sy'n bwysig". 137 o unigolion yn mynychu cyfarfodydd rhwydwaith. Mae gan 564 o bobl fwy o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn lleol. Mae 587 o bobl yn nodi cynnydd mewn cysylltiadau cymdeithasol. |
| **Bod y rhieni gorau y gallwn i'n plant sydd wedi cael profiad o ofal** | DA | Mae nifer y rhai sy'n gadael gofal sy'n profi digartrefedd yn uwch na'r llynedd ond gwnaethom lwyddo er hynny i gyrraedd ein targed.<br>Mae nifer y rhai sy'n gadael gofal sy'n cwblhau 12 mis olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ers gadael gofal wedi gostwng i 59% a heb gyrraedd y targed, ond mae'r rhai sy'n cwblhau 13-24 mis wedi cynyddu i 82% ac felly wedi cyrraedd y targed.<br>Mae'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn cryfhau gwaith partneriaeth ac yn monitro gweithrediad y Strategaeth Rhianta Corfforaethol.<br>Mae'r Fforwm Ieuenctid yn cyfarfod yn rheolaidd gyda chefnogaeth gan Tros Gynnal Plant Cymru ac mae barn y Fforwm yn cael ei chyflwyno i'w hystyried gan y Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Rydym yn cefnogi 178 o unigolion sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal a'u haelwydydd i gael mynediad at gyfleoedd iechyd a llesiant.<br>Rydym hefyd yn cynorthwyo plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal i gael mynediad at hyfforddiant a datblygiad sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth a gwirfoddoli, gyda rhai sesiynau eisoes wedi'u cynnal rhwng gwasanaethau, yn benodol y Tîm 16 a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid. |

# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?

- Gweithio i gynyddu ymgysylltiad llywodraethwyr â hyfforddiant diogelu.
- Cefnogi'r ysgol mewn 'mesurau arbennig' i roi'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad ar waith.
- Drwy'r 'Grŵp Strategaeth Digwyddiadau sy'n Gysylltiedig ag Arfau yn Lleoliadau Addysg Pen-y-bont ar Ogwr', edrych ar y defnydd o drais ac arfau mewn ysgolion, er mwyn nodi tueddiadau a themâu gan gynnwys enghreifftiau o arfer gorau i fynd i'r afael â thrais yn yr ysgol.
- Cefnogi ysgolion i gwblhau archwiliadau presenoldeb er mwyn nodi arfer gorau ac anghenion datblygu.
- Gweithio i wella lefelau absenoldeb parhaus mewn ysgolion cynradd.
- Gweithio gydag arweinwyr ysgolion i wella sgoriau capio 9 drwy rannu arfer effeithiol, rôl partneriaid gwella, broceru cymorth, datblygu gallu arweinyddol, grwpiau rhwydwaith awdurdodau lleol, gwerthuso ansawdd addysgu a barnu effaith addysgu ar y canlyniadau i ddysgwyr.
- Parhau i gefnogi a hyrwyddo addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gan roi amrywiaeth o grwpiau, prosiectau a mentrau ar waith i gynyddu cyfleoedd i blant ddefnyddio'r Gymraeg.
- Parhau i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer Moderneiddio Ysgolion
- Paratoi papur opsiynau ar gyfer y Rhaglen Bwyd a Hwyl i ystyried sut y gellid lleihau rhwystrau sy'n atal ysgolion rhag cymryd rhan.

# Astudiaeth achos

## Strategaeth gyfathrebu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg




Eleni, rydym wedi gweithio'n galed i hyrwyddo, marchnata a dathlu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg – gan ddatblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu i'w gefnogi.

I gyflawni hyn, mae Cydgysylltydd y Cynllun wedi gweithio'n agos gyda'r Hyrwyddwr Addysg Cyfrwng Cymraeg Rhanbarthol ac aelodau o is-grŵp y


Fforwm Addysg Gymraeg. Mae'r cynllun hwn yn egluro ein gweledigaeth, ein negeseuon a'r hyn y byddwn yn ei wneud i hyrwyddo addysg Gymraeg. Rydym hefyd wedi cwblhau'r 'Amserlen Gyfathrebu Cymraeg', sy'n mapio cyfathrebiadau wedi'u targedu ar draws y flwyddyn i hyrwyddo darpariaeth ac addysg cyfrwng Cymraeg, y defnydd o Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ac astudio'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch. Yn rhan o hyn, rydym wedi datblygu ymgyrch daledig ar Facebook drwy ddefnyddio fideos, posteri a dolenni i dudalennau gwe.

# Amcan Llesiant 5

**SGÔR**

**Bwrdeistref Sirol sy'n ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur**

**DA**




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi mwy o fanylion ichi am ein cynnydd o dan bob nod yn yr amcan llesiant hwn.

| Nod | Statws | Disgrifiad |
| --- | --- | --- |
| **Symud tuag at garbon sero net, a gwneud defnydd mwy effeithlon o ynni** | DIGONOL | At ei gilydd, cyflawnwyd gostyngiad o 1% mewn allyriadau yn 2024/25, sy'n is na'n targed o 5%, ond sy'n gam cadarnhaol yn ein rhwymedigaethau ar gyfer 2030, gyda gostyngiadau yn y defnydd o drydan a nwy a defnydd yn gysylltiedig â $CO_2$ ar draws ein hadeiladau.<br><br>Mae cyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer rhaglen amnewid LEDs a chyflwyno paneli solar ffotofoltäig (technoleg sy'n trosi golau haul yn syth i drydan drwy ddefnyddio deunyddiau lled-ddargludo) ar safleoedd gan gynnwys ysgolion. Mae lefelau inswleiddio 17 o adeiladau wedi gwella ac mae pump arall wedi cael goleuadau LED newydd i gymryd lle ffitiadau llai effeithlon. Mae 220.8kWp o baneli solar ffotofoltäig wedi'u gosod, ac mae pympiau gwres mwy effeithlon wedi disodli systemau gwresogi nwy mewn dau adeilad.<br><br>Cyflwynwyd Strategaeth Sero Net Drafft ym mis Mawrth 2025, a rhoddwyd adborth gan swyddogion a'r Pwyllgor Craffu i'r Ymddiriedolaeth Garbon.<br><br>Dangosai gwaith monitro ansawdd aer ar hyd Stryd y Parc yn yr ardaloedd rheoli ansawdd yr aer ostyngiad eto mewn lefelau $NO_2$ ar gyfer 2024, ond maent yn dal i fod yn fwy na'r amcan ansawdd aer cyfartalog blynyddol a osodwyd ar 40µg/m$^3$. Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer gan y Cabinet ym mis Ebrill 2024 a'i gyflwyno i LlC. |



| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Gwarchod ein tirweddau a'n mannau agored a phlannu rhagor o goed** | DA | Mae'r Bartneriaeth Natur Leol wedi parhau i gael ei chefnogi gan y Tîm Ymateb i Newid Hinsawdd. Rydym wedi gwneud gwaith i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Bartneriaeth Natur Leol drwy gynllun cyfathrebu a thudalen we'r bartneriaeth ar Ymweld â Phen-y-bont ar Ogwr.<br>Mae'r holl gyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2024/25 wedi cael ei wario neu ei ymrwymo, gan helpu nifer o grwpiau i gael cyfarpar arolygu, blychau nythu, coed i'w plannu ac ati. Mae cynlluniau bioamrywiaeth ym Meysydd Chwarae Llangrallo, Swyddfa Bost Tondu a Sied Dynion Caerau wedi cael eu datblygu.<br>Mae canllawiau ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth wedi cael eu hychwanegu at ein mewnrwyd staff, ochr yn ochr â dolenni i Gynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr a thempledi monitro. Mae adran ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth, a'r hyn y mae'n ei olygu i'r staff, hefyd wedi cael ei hychwanegu at fodiwl e-ddysgu Sefydlu Corfforaethol y staff.<br>Cadwodd tri thraeth yn Bae Rest, Bae Trecco a Marina Porthcawl eu statws Baner Las, a chadwodd Amlosgfa Llangrallo a Pharc Llesiant Maesteg eu statws fel parciau neu fannau gwyrdd Baner Werdd. |
| **Gwella'r parth cyhoeddus / yr amgylchedd adeiledig drwy egwyddorion creu lleoedd da** | DIGONOL | Mae ein canran o apeliadau cynllunio a wrthodwyd ychydig yn waeth na'r llynedd (81% o'i gymharu ag 87%) ond yn uwch na'r hyn a geir mewn awdurdodau eraill.<br>Mae nifer y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn wyth wythnos tua'r un peth â'r llynedd (67% o'i gymharu â 68%) er bod hyn yn dal i fod yn is na'r targed.<br>Nid oes digon o swyddogion cynllunio i ymdrin â'r cynnydd mewn ceisiadau mawr a chymhleth. Yn y tymor byr, rydym wedi ad-drefnu a defnyddio staff asiantaeth i ymdrin â'r rhain, ac am gyflwyno newidiadau cyllido a recriwtio yn y 12 mis nesaf.<br>Rydym wedi ymgynghori ar ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi ein Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn 2024. Mae'r ymgyngoriadau ar dai fforddiadwy a datblygiadau manwerthu a masnachol bellach wedi dod i ben. |
| **Lleihau, ailddefnyddio neu ailgylchu cymaint o'n gwastraff â phosibl** | DA | Mae ein safonau uchel wrth ailgylchu wedi parhau, gyda chanran y gwastraff glanhau strydoedd sy'n cael ei ailgylchu yn cynyddu i 41.22%, canran y gwastraff trefol a gesglir sy'n cael ei baratoi i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu, neu fiowastraff sy'n cael ei gompostio wedi lleihau rhyw fymryn i 70.93% oherwydd problemau wrth brosesu pren a gwastraff gwyrdd yn y cyfleuster rydym yn ei borthi. Mae faint o wastraff gweddilliol a gynhyrchwyd wedi gostwng ymhellach i 117.8 kg y pen.<br>Mae canran y tir priffyrdd y canfuwyd ei fod o lefel dderbyniol neu uchel o lanweithdra tua'r un peth ar 99.35%<br>Rydym ar ganol gweithio ar ein model gwasanaethau gwastraff i'r dyfodol, yn sgil penderfyniad gan y Cabinet i ddod â'r Gwasanaeth Gwastraff yn fewnol ym mis Tachwedd 2024. Mae arweinwyr llif gwaith yn eu lle ac yn porthi'r broses hon, gan gynnwys asiantaeth cefnogi prosiectau sy'n cyfrannu i'r Bwrdd Pontio Gwastraff, sy'n cyfarfod bob pythefnos. |
| **Gwella cynlluniau ac amddiffynfeydd rhag llifogydd i leihau llifogydd yn ein cartrefi a'n busnesau** | DA | Mae cynlluniau wedi'u cwblhau ar Stryd Adare, Bro Ogwr ac ar Stryd Dinam, Nant-y-moel, i drwsio cwlfert a oedd wedi'i ddifrodi a lliniaru'r risg o lifogydd.<br>Mae cyllid Llif Cyfalaf (dichonoldeb) FCERM (Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol) LlC wedi'i gymeradwyo ar gyfer astudiaeth dalgylch gyfan o Nant Cefn Glas, yn dilyn llifogydd Bryntirion ym mis Medi 2024.<br>Cyflwynwyd gwelliannau i'r broses ymgeisio systemau draenio cynaliadwy (SDCau), gyda 100% o geisiadau'n cael eu prosesu o fewn saith wythnos. |

# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?

- Cwblhau ac ymgynghori ar y Strategaeth Sero Net.
- Dechrau Cynllun REFIT2 yn nhymor y gwanwyn 2025.
- Creu cais Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2025/27.
- Gweithredu'r astudiaeth dalgylch cyfan o Nant Cefn Glas yn dilyn llifogydd Bryntirion ym mis Medi 2024 gyda chyllid Llif Cyfalaf (dichonoldeb) FCERM (Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol) LlC.
- Parhau i weithio ar Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r CDLl.
- Parhau â gwaith i ddod â'r Gwasanaeth Gwastraff yn fewnol.

# Astudiaeth achos

## Cael ein henwi fel yr awdurdod lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran ailgylchu




Ym mis Tachwedd 2024, cafodd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei henwi fel yr Awdurdod Lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran ailgylchu (ar sail perfformiad yn 2023/24). Yn y safle uchaf gyda chyfradd ailgylchu o 73%, datgelodd ystadegau fod y Fwrdeistref Sirol wedi sicrhau gwelliant o 17% i'w pherfformiad dros y degawd diwethaf. Yn y 12 mis blaenorol, gwnaethom ailgylchu 39,000 o dunelli o wastraff, gan gynnwys bron 5,000 o dunelli o wydr, 11,000 o dunelli o wastraff organig a 6,000 o dunelli o bapur, gyda tros 9,000 o dunelli o wastraff wedi'i brosesu mewn canolfannau ailgylchu cymunedol, gan gynnwys y ganolfan ailgylchu newydd yn y Pîl a agorwyd ym mis Mawrth 2024.

# Amcan Llesiant 6

| SGÔR |
|---|
| DIGONOL |

**Bwrdeistref Sirol lle mae pobl yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi, wedi'u clywed, ac yn rhan o'u cymuned**




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi mwy o fanylion ichi am ein cynnydd o dan bob nod yn yr amcan llesiant hwn.

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Dathlu a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant a mynd i'r afael â gwahaniaethu** | DA | Cymeradwywyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) 2024/28 newydd ym mis Gorffennaf 2024 ac mae wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Cytunwyd ar Gynllun Gweithredu sy'n dangos sut y byddwn yn cyflawni ein hamcanion ym mis Tachwedd 2024.<br><br>Mae 64% o staff y cyngor wedi cwblhau'r Hyfforddiant Cyflwyniad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n uwch na'r llynedd ond yn dal yn is na'r targed o 100%.<br><br>Ceir tri grŵp rhwydwaith staff bellach: menopos, anabledd ac LHDTC+ Mae Fforwm y Gymraeg hefyd wedi cael ei sefydlu ar gyfer staff ar bob lefel o ran rhuglder. |
| **Gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â phobl leol, gan gynnwys pobl ifanc, gwrando ar eu safbwyntiau a gweithredu arnynt.** | DIGONOL | O'r rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad, mae'r ganran sydd o'r farn ein bod wedi bod yn effeithiol iawn wrth gyrraedd ein nod o ganolbwyntio ar y dinesydd dros y 12 mis diwethaf wedi gostwng rhyw fymryn i 44% yn erbyn targed o 50%.<br><br>Roedd fersiwn hawdd ei darllen o'r Ymgynghoriad ar Gyllideb 2025 ar gael ar dudalen we'r ymgynghoriad. Cyflwynwyd gwelliannau i'r ffurflenni ar-lein ar gyfer ymgyngoriadau cynllunio. Mae'r Strategaeth Cyfranogi ac Ymgysylltu wedi cael ei gweithredu a'i chyhoeddi.<br><br>Cynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol o Drigolion yn nhymor yr hydref 2024. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu dadansoddi nawr.<br><br>Mae lefel yr ymgysylltiad â thrigolion, drwy ddefnyddio'r llwyfan cyfathrebiadau digidol, wedi cynyddu a'r targedau wedi'u cyrraedd. Fodd bynnag, mae ymgysylltiad ar draws cyfrifon corfforaethol y cyfryngau cymdeithasol wedi gostwng a'r targedau wedi'u methu.<br><br>Mae lefel yr ymgysylltiad ar ymgyngoriadau corfforaethol wedi cynyddu ond methwyd â chyrraedd y targed. |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Cynnig mwy o wybodaeth a chyngor ar-lein, ac ar lefel leol, a sicrhau y gallwch siarad â ni a chlywed gennym yn y Gymraeg** | **DA** | Dydyn ni ddim wedi cyrraedd ein targedau'n llawn o ran datrysiadau galwad gyntaf, ond mae'r perfformiad wedi gwella o gymharu â'r llynedd, i 73%. Mae hyn yn dangos nifer y galwadau ffôn a gafodd eu trin gan y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar y cyswllt cyntaf heb orfod trosglwyddo'r alwad ymlaen.<br><br>Mae nifer y trafodion ar-lein sy'n defnyddio'r platfform digidol wedi cynyddu ac rydym wedi cyrraedd ein targed.<br><br>Mae nifer y trawiadau neu'r ymweliadau â gwefan y Cyngor wedi gostwng o gymharu â 2023/24 ac rydym wedi methu'r targed.<br><br>Mae canran y staff sydd â sgiliau siarad Cymraeg wedi cynyddu i 28.36% gan gyrraedd ein targed. Mae 63% o staff y Cyngor wedi cwblhau E-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, sy'n uwch na'r llynedd ond yn dal yn is na'r targed. |
| **Helpu clybiau a grwpiau cymunedol i wella a chymryd rheolaeth ar eu cyfleusterau, a'u gwarchod i'r dyfodol.** | **ANFODDHAOL** | Mae'r Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC) wedi wynebu nifer o heriau yn 2024/25, ac nid ydym ond wedi cwblhau dau TAC eleni yn erbyn targed o ddeg, yn rhannol oherwydd problemau capasiti. Roedd y ddau gynllun TAC a gwblhawyd yn llwyddiannus yng Nghanolfan Gymuned Goetre-Hen a Grin Bowlio Parc Llesiant Evanstown. Rydym wedi ymdrin â'r problemau capasiti ac wedi gwneud cynnydd da, gyda thair prydles newydd wedi'u llofnodi ac yn disgwyl cael eu cwblhau, 23 y mae angen gwneud rhagor o waith yn gysylltiedig â nhw o fewn y cyngor, saith yn disgwyl canlyniadau cynllunio ac 13 yn disgwyl penderfyniadau gan glybiau.<br><br>Mae 566 o bobl wedi cael cefnogaeth gan Gydgysylltwyr Cymunedol i fodloni eu hanghenion yn y gymuned. Mae hyn yn llawer uwch na'r targed ar gyfer y rolau newydd. |
| **Datblygu'n Gyngor oed-gyfeillgar** | **DA** | Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cymryd rhan mewn rhaglen Cymru gyfan a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid Cwm Taf Morganwg (CTM) a sefydliadau'r trydydd sector, gan weithio i symleiddio gwasanaethau iechyd a'r llwybrau presgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys y Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a'r Cynllun Hamdden Actif 60+.<br><br>Rhoddwyd cymorth i gynyddu cydnerthedd cymunedau o fewn gwasanaethau dementia. Mae dros ddeg o sefydliadau gwirfoddol wedi cael eu cefnogi drwy geisiadau am grantiau ar gyfer prosiectau cymunedol sy'n weithgar ym maes atal dementia. Buom yn dathlu'r Wythnos Pobl Hŷn gyda chyfleoedd diwylliannol ac artistig, gan gynnwys gweithdai celf, dangosiadau sinema a disgo distaw wedi'u cynnal gan ein hymddiriedolaeth ddiwylliannol, Awen. |



# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?

- Rhoi'r cynllun gweithredu ar waith ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Cymeradwyo a gweithredu ein Strategaeth Ddigidol newydd.
- Adolygu a gwella'r drws blaen corfforaethol.
- Myfyrio ar ganfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol o Drigolion a gweithredu i fynd i'r afael â materion.
- Dechrau olrhain cynlluniau Trosglwyddo Ased Cymunedol sy'n symud o brydlesau byrdymor i brydlesau tymor hwy.

# Astudiaeth achos

## Deallusrwydd artiffisial (AI) mewn ysgolion

Mae technoleg AI yn cael ei chyflwyno'n gynyddol i ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gennym gyfarwyddyd polisi clir a chytunedig sydd wedi'i gyfleu wrth ysgolion gyda chanllawiau a hyfforddiant sgiliau i'w gefnogi. Mae hyfforddiant sgiliau wedi cael ei ddarparu i benaethiaid ac i ymarferwyr ar ddefnyddio AI.



Mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu ar bynciau fel diogelwch ar-lein, defnyddio adnodd 'Cynllunio ar gyfer Cynnydd' y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, Microsoft 365, Google for Education, Adobe Express ac offer a gwasanaethau ychwanegol ar Hwb.


Mae athrawon ac ymarferwyr bellach wedi'u paratoi'n dda i integreiddio'r offer a'r fframweithiau digidol hyn i'w cwricwlwm. Rydym hefyd yn cynnal digwyddiadau dysgu diogelwch ar-lein sy'n cynorthwyo rhieni a gofalwyr i ddeall diogelwch ar-lein a sut i'w diogelu eu hunain a'u plant yn well.



# Amcan Llesiant 7

**Bwrdeistref Sirol lle rydym yn cefnogi pobl i fod yn iach ac yn hapus**

| SGÔR |
|---|
| **DA** |




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi mwy o fanylion ichi am ein cynnydd o dan bob nod yn yr amcan llesiant hwn.

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Gwella darpariaeth teithio llesol er mwyn i bobl allu cerdded a beicio** | DA | Agorodd cyfleuster bysiau Metrolink ym Mhorthcawl ym mis Tachwedd 2024.<br><br>Mae'r gwaith gwella teithio llesol a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn bellach wedi'i gwblhau hefyd gyda gosodiadau cwrbiau is wedi'u hychwanegu ledled y fwrdeistref. |
| **Cynnig gweithgareddau hamdden a diwylliannol deniadol** | ARDDERCHOG | Mae prosiect adnewyddu Pafiliwn y Grand ar y gweill, ac mae proses dendro wedi'i chwblhau i ddyfarnu'r contract ar gyfer y gwaith adeiladu. Mae gwaith galluogi ar y safle wedi'i gwblhau i baratoi'r safle am y prif waith contract.<br><br>Gweithredodd y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff y tu hwnt i'w gapasiti gyda 1,331 o atgyfeiriadau newydd ar draws 24,663 o sesiynau. Cwblhaodd 473 o gyfranogwyr gwrs 16 wythnos. Cafwyd 157 o atgyfeiriadau ar gyfer cymorth i ofalwyr, gyda 35 o gyfranogwyr yn dechrau'r cwrs a 26 o gyfranogwyr yn cwblhau'r cwrs. Ar gyfer adsefydlu'r ysgyfaint, dechreuodd 141 o gyfranogwyr y cwrs, gyda 117 yn ei gwblhau.<br><br>Mae'r rhaglen llesiant Teimlo'n Dda am Oes wedi cefnogi 600 o bresenoldebau. Mae gweithgareddau llesiant cymunedol Super-Agers wedi cefnogi 163 o unigolion, gan gynnwys 2061 o bresenoldebau a 126 o gyfleoedd.<br><br>Mae gwaith wedi dechrau ar strategaeth hirdymor ar gyfer llyfrgelloedd. Mae ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i ddatblygu i'w ddefnyddio'r flwyddyn nesaf. Caiff defnydd o lyfrgelloedd ei fonitro bob chwarter gan edrych ar ddigwyddiadau, benthyciadau ac adnoddau digidol. Cafwyd dros 73,000 o ymweliadau (gan gefnogi bron i 34,000 o fenthyciadau i blant a bron 4,000 o sesiynau TGCh). |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Gwella cyfleusterau a chyfleoedd chwarae plant** | ARDDERCHOG | Mae gwaith adnewyddu mannau chwarae wedi mynd rhagddo yn unol â'r hyn a gynlluniwyd. Mae'r buddsoddiad mewn mannau chwarae yn 2024/25 wedi cyrraedd dros £1.7 miliwn, gan ragori ar y targed o £1.6 miliwn. Cafodd cyfanswm o 22 o fannau chwarae eu hadnewyddu a'u trosglwyddo i'r gymuned.<br><br>Rydym yn cynnal asesiad digonolrwydd darpariaeth chwarae gan edrych ar yr hyn sydd gennym eisoes a'r hyn sydd ei angen arnom ar gyfer y dyfodol. Mae 142 o blant ac oedolion ifanc ag anghenion ychwanegol wedi cael aelodaeth HALO am ddim i gefnogi iechyd a llesiant. |
| **Darparu prydau ysgol am ddim ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant am ddim** | DA | Mae'r broses o gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd wedi'i chwblhau ar draws y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Bu cynnydd pellach i nifer y plant sy'n derbyn gofal plant a ariennir drwy Ddechrau'n Deg, gyda chyfanswm o 542 o blant bellach wedi'u cofrestru. Mae hyn ychydig yn is na'r targed, a thybir bod gostyngiad mewn cyfraddau geni yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn effeithio ar y ffigurau.<br><br>83% oedd canran y lleoliadau nas cynhelir y barnodd Arolygiaeth Gofal Cymru eu bod yn 'dda' o leiaf, a oedd yn is na'r targed o 100% a osodwyd gennym. Rydym yn disgwyl i leoliadau a gafodd ddyfarniadau llai na da, yn dyddio'n ôl i 2019, gael eu hailarolygu. Rydym yn rhoi llawer o gymorth i leoliadau baratoi am arolygiadau. |
| **Integreiddio ein gwasanaethau gofal cymdeithasol â gwasanaethau iechyd fel bod pobl yn cael cymorth di-dor** | DA | Wynebodd 70 o bobl oedi ar y llwybr Gofal cenedlaethol ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n llawer gwell na'r llynedd ac ychydig yn well na'n targed.<br><br>Rydym wedi defnyddio arian grant her 50 diwrnod Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i ailfodelu cymorth gartref. Rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd o amgylch y model gofal cymunedol gwell. Rydym wedi ymwreiddio'r model ymarfer ar sail cryfderau yn llawn. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yng nghyfanswm y bobl sy'n derbyn gwasanaeth ailalluogi, a gostyngiad yng nghyfanswm yr oriau gofal cartref a ddarperir, yn unol â'r model Rhyddhau i Adfer yna Asesu. |
| **Gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy** | DIGONOL | Dim ond 77 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol sydd wedi cael eu darparu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eleni yn erbyn targed o 110, er bod 92 wedi cael eu hadeiladu neu eu caffael, ac yn barod i fyw ynddynt yn fuan.<br><br>Mae Cynllun Lesio Llywodraeth Cymru wedi cael ei fabwysiadu, gyda phortffolio cynyddol o lety eisoes yn cael ei ddefnyddio, ac eiddo pellach ar y gweill.<br><br>Rydym wedi ymgysylltu â'r holl RSLs a Llywodraeth Cymru i drafod anghenion tai cyffredinol, llety dros dro a chynlluniau tai â chymorth.<br><br>Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi gwneud cynnydd gyda'r 20 eiddo gwag uchaf eu blaenoriaeth. Mae pum eiddo wedi cael eu gwerthu; gwaith adnewyddu wedi'i wneud ar saith eiddo; dau eiddo wedi'u rhoi ar werth, a dau wedi'u meddiannu. Mae camau gorfodi wedi'u cymryd yn erbyn pedwar eiddo. Mae camau anffurfiol wedi cael eu cymryd yn gysylltiedig â phum eiddo, ond ni chafwyd unrhyw ymyriadau ar gyfer dau eiddo yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r Cynllun Benthyciadau Eiddo Gwag yn weithredol ac yn creu diddordeb. |

# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?

- Parhau â'r gwaith i ailddatblygu Pafiliwn y Grand Porthcawl.
- Bydd cam tri i ehangu Dechrau'n Deg yn targedu ardaloedd newydd yn 2025/26.
- Cwblhau'r asesiad digonolrwydd darpariaeth chwarae gan edrych ar yr hyn sydd gennym eisoes a'r hyn sydd ei angen arnom ar gyfer y dyfodol.
- Cwblhau'r broses o ymgysylltu ynghylch y strategaeth hirdymor ar gyfer llyfrgelloedd.
- Parhau i dargedu eiddo gwag hirdymor.
- Cefnogi lleoliadau gofal plant i baratoi am arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru.

# Astudiaeth achos

## Metrolink newydd Porthcawl

Agorwyd Metrolink newydd Porthcawl ar 18 Tachwedd 2024. Cyfnewidfa drafnidiaeth fodern ydyw, wedi'i lleoli ar dir yn ardal adfywio Porthcawl, ochr yn ochr â Portway a'r Llyn Halen.

Mae'n rhan o raglen ehangach Metro Plus, sy'n gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ledled de-ddwyrain Cymru. Fe'i defnyddir gan yr holl wasanaethau bws sy'n gweithredu ym Mhorthcawl ar hyn o bryd. Gall gynnwys hyd at bedwar bws ar y tro, ac mae'n cynnwys cysgodfan ac adeilad gorsaf, lle ar gyfer ciosg, mannau eistedd y tu allan, to 'gwyrdd' ecogyfeillgar a gardd law.

Adeiladwyd y cyfleuster drwy ddefnyddio arian o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a chan Lywodraeth y DU a hefyd o gyllideb Adfywio Porthcawl y Cyngor ei hun.






# Sut mae'r cyngor yn defnyddio ei adnoddau?

Rydym bob amser wedi gorfod adrodd ar ba mor dda yr ydym am ddefnyddio ein hadnoddau. Er enghraifft, dweud wrth Archwilio Cymru am ein gwariant, ein gweithlu a'n hadeiladau. Hyd yn ddiweddar, nid oedd gennym broses ar gyfer adolygu sut rydym yn rheoli ein holl adnoddau gwahanol. I'n helpu i ysgrifennu'r adroddiad hwn, datblygwyd proses gennym i edrych ar y canlynol:

- Cyllid a rheoli risg,
- Comisiynu a chaffael,
- Cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad,
- Cynllunio'r gweithlu, a
- Rheoli asedau.

# I ffurfio ein barn, gwnaethom ddefnyddio'r canlynol:

- Dangosyddion perfformiad e.e. lefelau swyddi gwag ymhlith y staff a gwaith cynnal a chadw adeiladau,
- Tystiolaeth o gyflawni ein prosiectau a'n cynlluniau gwella,
- Adborth gan gwsmeriaid, staff ac undebau llafur, a
- Barn rheoleiddwyr e.e. Adroddiad Archwilio Cymru ar gynllunio'r gweithlu

# Gofynnwyd cwestiynau gennym yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys:

- A ddylem ganolbwyntio ar atal, yn hytrach nag unioni pethau ar ôl iddyn nhw fynd o'u lle?
- Ydyn ni'n creu cynlluniau cryf ar gyfer y tymor hir?
- Ydyn ni'n rhannu syniadau, cynlluniau ac adnoddau â sefydliadau partner?
- Ydyn ni'n creu cysylltiadau ac yn gwneud pethau'n gyson ar draws y Cyngor?
- Ydyn ni'n cynnwys y gymuned a chwsmeriaid mewn cynlluniau a phenderfyniadau allweddol?

Cyflwynwyd y canfyddiadau gennym i gynghorwyr a graffodd arnynt, gan wirio a gofyn cwestiynau, a defnyddio'r un raddfa ddyfarnu o ardderchog i anfoddhaol.

# Barn gyffredinol

| | | |
|---|---|---|
| **Defnydd o adnoddau** | **DIGONOL** | Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, mae ein defnydd o adnoddau yn ddigonol.<br><br>Mae rhai pethau wedi gwella; rydym wedi gweithredu bron bob rhan o'n cynllun gwella rheoli perfformiad ac adolygu Cynllun Cyflawni ein Cynllun Corfforaethol. Cafwyd gwelliannau wrth adnabod, rheoli ac adrodd ar risg, ac mewn adolygiad gan y gwasanaeth archwilio mewnol canfuwyd bod system gadarn ar waith o ran llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Rydym wedi gwella neu awtomeiddio rhai o'n polisïau a'n gweithdrefnau Adnoddau Dynol (AD) ac wedi lleihau ein defnydd o weithwyr asiantaeth. Rydym wedi diweddaru ein Rheolau Gweithdrefn Contractau i adlewyrchu deddfwriaeth newydd ac wedi cryfhau'r ystyriaeth o werth cymdeithasol a gostyngiadau carbon yn ein tendrau. Mae Archwilio Cymru wedi adolygu ein Cynaliadwyedd Ariannol bod 'y Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol gyda threfniadau da i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol'. Mae ein Rheolau Gweithdrefn Ariannol wedi cael eu diweddaru. Rydym wedi lleihau'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni ar ein hasedau, wedi gwella ein rheolaeth ar Gydymffurfiaeth Adeiladau Statudol, gyda Chydymffurfiaeth â'r Prif 5 Agwedd ar 95%, ac wedi gwneud cynnydd tuag at resymoli ein hystâd.<br><br>Mae agweddau eraill wedi aros yr un peth, neu wedi gwaethygu. Bu'n anodd monitro'r gyllideb a llunio rhagolygon alldro, gyda rhagolwg o orwariant mawr yn newid i danwariant mawr o fewn y flwyddyn. Ni chyflawnwyd rhai gostyngiadau cytunedig i'r gyllideb, ac mae pwysau o hyd ar y gyllideb sylfaenol. Wrth i gronfeydd wrth gefn ostwng, ceir risg y bydd hyn yn peryglu ein cynaliadwyedd ariannol. Mae ein sefyllfa ariannol yn gyffredinol wedi datblygu'n fwy heriol. Nid yw'r gwelliannau a gynlluniwyd o ran comisiynu corfforaethol mwy cyson, adolygu ein fframwaith perfformiad a chynllunio'r gweithlu wedi mynd rhagddynt, ac mae'r capasiti'n brin o fewn timau corfforaethol.<br><br>Mae gennym fframweithiau cryf a phrosesau cadarn er mwyn rheoli adnoddau o ddydd i ddydd, gyda modelau gwaith clir a chytunedig a pherthnasoedd gwaith da rhwng timau a chyfarwyddiaethau corfforaethol. Ond yn wyneb prinder adnoddau, bydd hi'n anodd cynllunio am y tymor hwy, ymdrin â chapasiti mewn timau corfforaethol a chyfarwyddiaethol, bod yn fwy rhagweithiol a datblygu ein gwasanaethau corfforaethol i fodloni gofynion sy'n newid. |



# Dyfarniadau ar sail thema

| | | |
|---|---|---|
| **Cyllid** | **DIGONOL** | Mae'r gwaith cynllunio ariannol yn ddigonol. Mae hyn yn seiliedig ar farn sy'n gadarnhaol ar y cyfan gan reoleiddwyr, llwyddiant wrth gydbwyso ein cyllideb bob blwyddyn, a Datganiadau Cyfrifon diamod wedi'u cymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.<br><br>Bu'n anodd monitro'r gyllideb a llunio rhagolygon alldro, gyda rhagolwg o orwariant mawr yn newid i danwariant mawr o fewn y flwyddyn. Ni chyflawnwyd rhai gostyngiadau cytunedig i'r gyllideb, ac mae pwysau o hyd ar y gyllideb sylfaenol. Wrth i gronfeydd wrth gefn ostwng, mae risg i'n cynaliadwyedd ariannol. Mae ein sefyllfa ariannol wedi datblygu'n fwy heriol, oherwydd cynnydd mewn cyflogau a phrisiau a phwysau ar wasanaethau, a mwy o anawsterau wrth gasglu'r Dreth Gyngor. Mae'r heriau'n parhau yn 2025/26 a thu hwnt. Bydd cynllunio ariannol cryf yn hanfodol er mwyn pennu cyllidebau cytbwys yn y dyfodol.<br><br>Mae Archwilio Cymru wedi adolygu ein Cynaliadwyedd Ariannol bod 'y Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol gyda threfniadau da i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol'. Roedd yn cynnwys dau argymhelliad i gryfhau cynaliadwyedd ariannol. Mae ein fframwaith ariannol yn gadarn, gyda threfniadau llywodraethu cryf sy'n llywio'r gyllideb, gan gynnwys Rheolau Gweithdrefn Ariannol a ddiweddarwyd eleni, egwyddorion Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC), ac egwyddorion y gyllideb, sy'n llywio'r gyllideb a'r gwariant, a phenderfyniadau buddsoddi a benthyca'r Cyngor. Mae'r sefyllfa ariannol wedi'i nodi mewn adroddiadau rheolaidd i aelodau a'r cyhoedd, ac rydym yn arddangos lefel uchel o gydymffurfiaeth â Chod Rheoli Ariannol, egwyddorion a safonau CIPFA.<br><br>Mae meysydd i'w gwella yn cynnwys cynllunio'n gynharach am y tymor hwy, gan gynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru tuag at gyllid cynaliadwy, setliadau amlflwyddyn, a hyblygrwydd yn gysylltiedig â grantiau. Byddwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu’n gynnar ag Aelodau i bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27 ac ar gefnogi gwasanaethau i gadw rheolaeth lem ar eu cyllidebau i gadw gorwariant mor isel â phosib. |
| **Cynllunio corfforaethol** | **DA** | Mae'r trefniadau cynllunio corfforaethol yn dda. Rydym wedi ailflaenoriaethu cynllun cyflawni'r cynllun corfforaethol i adlewyrchu uchelgeisiau aelodau etholedig, staff a phartneriaid yn ogystal â heriau a chyfyngiadau. Cytunodd y Cyngor ar y Cynllun Cyflawni ar 9 Ebrill 2025, gyda chynlluniau busnes y cyfarwyddiaethau i ddilyn.<br><br>Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Archwilio Cymru ei adolygiad o amcanion llesiant (yn y Cynllun Corfforaethol), gan ddod i'r casgliad canlynol: 'Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant, ond mae cyfleoedd i adeiladu ar sut mae'n cynnwys dinasyddion a sut mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid.'<br><br>Mae cyfleoedd i wella yn cynnwys cychwyn y broses adolygu yn gynharach ac ymgysylltu'n well â staff / undebau llafur fel rhan o'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Rheoli risg** | **DA** | Mae'r gwaith rheoli risg yn dda.<br><br>Cyflwynwyd gwelliannau i'r broses o adnabod, rheoli ac adrodd ar risg yn y flwyddyn ddiwethaf. Cafwyd diweddariad i'r Asesiad Risg Corfforaethol ar ddechrau 2025, a gafodd dderbyniad cadarnhaol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2025. Mae adroddiadau a'r broses adrodd ar gyfer risg yn syml ac yn hygyrch, gan gynnwys y broses i'r aelodau.<br><br>Mewn adolygiad gan y gwasanaeth archwilio mewnol o drefniadau Rheoli Risg Corfforaethol y Cyngor, a gwblhawyd ym mis Mawrth 2024, adroddwyd sicrwydd rhesymol yn gysylltiedig â rheoli risg.<br><br>Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i graffu ar yr Asesiad Risg Corfforaethol, ac i safoni adroddiadau ar risg ar draws cyfarwyddiaethau, ac integreiddio adroddiadau risg â pherfformiad a chyllid ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. Byddwn hefyd yn ystyried a ydym yn osgoi risg yn ormodol ar lefel gorfforaethol. |
| **Comisiynu a Chaffael** | **DIGONOL** | Mae'r trefniadau caffael a chomisiynu'n ddigonol.<br><br>Mae'r elfen gaffael yn dda. Daeth Deddf Caffael newydd y DU 2023 i rym ar 24 Chwefror 2025 a daeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 i rym ym mis Ebrill 2024. Rydym wedi gweithredu rheolau gweithdrefn contractau newydd yn unol â Deddf y DU a byddwn yn datblygu a chynnal sesiynau hyfforddi ar y rhain. Rydym yn gweithio i ddatblygu strategaeth a chynllun cyflawni newydd i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae gwerth cymdeithasol a lleihau carbon wedi cael eu cryfhau fel ystyriaethau yn ein tendrau. Mae Protocol Diogelu i Gontractwyr hefyd wedi'i gynnwys i sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol o'u dyletswyddau i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Rydym wedi datblygu gwefan ar gyfer tendrau a chaffael, gan gynnwys Cofrestr Contractau Corfforaethol a chanllaw 'Gwerthu i'r Cyngor' newydd er mwyn helpu cyflenwyr a chontractwyr i gynnal busnes â'r cyngor.<br><br>Rydym wedi datblygu a gweithredu Datganiad Caethwasiaeth Fodern a thelerau ac amodau safonol i'w defnyddio ar draws y cyngor. Cyflwynwyd newidiadau i'n prosesau a'n gweithdrefnau yng ngoleuni sefyllfa ariannol y Cyngor yn 2023/24, gan gynnwys uchafswm ar awdurdodiadau ar gyfer gwariant ar gardiau prynu. Ar ôl gweld eu bod yn llwyddiannus, rydym wedi parhau â'r newidiadau hyn.<br><br>Asesir mai 'digonol' yw'r farn gyffredinol, ar sail yr angen i wella capasiti yn y timau corfforaethol a chyfarwyddiaeth, yn enwedig er mwyn canolbwyntio ar berthnasoedd â chyflenwyr, ac adrodd ar werth cymdeithasol, yr angen i wella'r dull o gomisiynu ar draws cyfarwyddiaethau, a sicrhau mwy o gysondeb yn hynny o beth. |

| | | |
|---|---|---|
| **Rheoli perfformiad** | **DIGONOL** | Mae rheoli perfformiad yn ddigonol.<br><br>Ers ein hunanasesiad diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd ar ein Cynllun Gwella Rheoli Perfformiad, wedi cau argymhellion Adolygiad Rheoli Perfformiad Archwilio Cymru ac wedi mynd i'r afael â gweddill argymhellion yr archwiliad mewnol o ddangosyddion perfformiad. Dyma'r prif welliannau:<br><br>**Adolygiad mwy effeithiol o wybodaeth perfformiad chwarterol drwy adrodd ar wahân i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu.**<br><br>**Datblygu dull cyngor cyfan o adrodd ar berfformiad, gan gyflwyno data ar berfformiad o dan amcanion llesiant corfforaethol yn hytrach na chyfarwyddiaethau.**<br><br>**Gwella ein traciwr rheoleiddiol ac integreiddio hyn yn well i'n gwaith rheoli perfformiad chwarterol.**<br><br>**Gwella ansawdd a chywirdeb data drwy archwiliadau dangosyddion perfformiad, a thrwy wneud gwell defnydd o dystiolaeth ategol.**<br><br>**Cefnogi Rheolwyr Grŵp a Hyrwyddwyr Perfformiad i wella ansawdd data a graddfeydd amser adrodd.**<br><br>**Datblygu a gweithredu system fwy gwrthrychol i farnu ar ein perfformiad mewn hunanasesiadau.**<br><br>**Gwella ein defnydd o safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth drwy'r Arolwg Cenedlaethol o Drigolion a gweithio gyda Data Cymru.**<br><br>Mae angen gwelliannau o hyd, gan gynnwys gwella'r trefniadau i herio a gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth am berfformiad, adeiladu capasiti o fewn timau corfforaethol a chyfarwyddiaeth, adolygu ein fframwaith perfformiad a chynyddu cydnerthedd ein system berfformiad. |
| **Cynllunio'r gweithlu** | **DIGONOL** | Mae trefniadau rheoli'r gweithlu yn dda.<br><br>Mae adborth gan weithwyr, rheolwyr, cynrychiolwyr undebau llafur ac archwiliadau mewnol yn gadarnhaol ar y cyfan. Caiff rheolwyr gymorth i ymdrin yn effeithiol â materion pobl drwy gael cefnogaeth briodol ac amserol gan AD a'r Gwasanaeth Datblygu Trefniadol. Nod y model gweithredu AD yw rhoi gwasanaeth gwell i reolwyr sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau AD rhagweithiol ac ataliol, gan leihau'n raddol y ddarpariaeth a'r angen am wasanaethau cymorth ymatebol.<br><br>Cafwyd gwelliannau i'n Cynlluniau Gweithlu Strategol, ac wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau AD ymhellach, e.e. awtomeiddio yn y broses recriwtio. Mae rheolwyr wedi cael cefnogaeth i reoli absenoldeb salwch. Mae briffiau AD ar bynciau allweddol yn y gweithlu wedi rhoi cefnogaeth i reolwyr. Rydym wedi canolbwyntio ar leihau'r defnydd o weithwyr asiantaeth, gan lwyddo i wneud hynny yn y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys recriwtio'n rhyngwladol a meithrin ein gweithwyr ein hunain.<br><br>Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar lesiant y sefydliad, gan roi cefnogaeth i weithwyr a rheolwyr lle bo angen. Byddwn yn parhau i ddatblygu prosesau AD, lle bydd awtomeiddio yn allweddol. Mae angen mwy o gapasiti ymhlith rheolwyr ac yn y tîm AD o hyd, a mwy o ffocws ar gynllunio'r gweithlu'n strategol ar draws y cyngor, gan gynnwys cynllunio olyniaeth. |

**Rheoli asedau**

**DIGONOL**

Mae'r Polisi Rheoli Asedau yn dda, gydag ymgysylltiad da gan bob cyfarwyddiaeth yn fewnol. Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau yn ddeinamig, ac mae adolygiad ohono'n cael ei gynnal gyda gwasanaethau a phartneriaid bob blwyddyn a phob dwy flynedd yn gysylltiedig â gwasanaethau, asedau a marchnadoedd. Asesir bod y farn gyffredinol yn ddigonol, yn seiliedig ar yr angen i fynd i'r afael â'r heriau parhaus o ran y gweithlu ac adnoddau sy'n effeithio ar ein gallu i gynllunio'n fwy strategol, ac sy'n arwain at ymagwedd ymatebol barhaus. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi –

**Lleihau'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni**

**Gwella ein rheolaeth ar Gydymffurfiaeth Adeiladau Statudol. Mae'r gyfradd gydymffurfio bellach ar 78%, y gyfradd gydymffurfio â'r 5 Prif Agwedd ar 95% a chydymffurfiaeth â gofynion legionella ar 88%.**

**Dechrau caffael System Rheoli Gwaith Integredig a datblygu cronfa ddata asedau newydd ar gyfer peiriannau.**

**Rhesymoli ein hystâd drwy werthu Ravenscourt i Heddlu De Cymru a gwagio'r Ganolfan Arloesi i'w gwaredu. Cefnogi symud MASH i'r Swyddfeydd Dinesig.**

**Parhau i ddatblygu'r Cynllun Rheoli Asedau newydd.**

**Gweithio ar fanyleb comisiynu arolygon cyflwr newydd, fel bo modd cynnal arolygon cyflwr manylach yn 2025/26.**

**Cwblhau archwiliad allanol o'n Tîm Prosiectau Mawr er mwyn gwella ein gwaith i ddylunio ac adeiladu ysgolion newydd.**

Ond mae angen mwy o welliannau o hyd, gan gynnwys mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol newydd, gwelliannau parhaus i'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni a'r gofynion i gydymffurfio â rheoliadau adeiladau statudol, caffael a gweithredu IWMS a chanolbwyntio ar gapasiti ein gweithlu. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Datgarboneiddio i wella ein hymagwedd rheoli asedau.



# Pa mor dda yw trefniadau llywodraethu'r cyngor?

Mae sefydliadau a chanddynt drefniadau llywodraethu da yn defnyddio prosesau penderfynu clir, ac yn cyfathrebu mewn modd agored ynghylch yr hyn maen nhw'n ei wneud. Maen nhw'n gweithio'n dda gyda'u rhanddeiliaid, yn rheoli'r risgiau o'u blaen, ac yn cymryd cyfrifoldeb dros eu hasedau.

Rydym bob amser wedi gorfod adrodd ar ein trefniadau llywodraethu wrth Archwilio Cymru. Ceir proses glir i ddatblygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) sydd wedi bodoli ers blynyddoedd. Mae'r wybodaeth isod yn crynhoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2024/25.

# Beth yw ein barn?

| | |
|---|---|
| **Llywodraethu** | **DA** |

Mae ein trefniadau llywodraethu yn dda ac yn gweithio'n dda.

# Gwneud penderfyniadau

Mae ein Fframwaith Llywodraethu, ein Cod Llywodraethu Corfforaethol yn esbonio sut rydym yn gweithio, sut rydym yn atebol a sut y caiff penderfyniadau eu gwneud. Yn 2022 aethom ati i ddatblygu cyfansoddiad newydd gyda chanllaw syml i helpu aelodau o'r cyhoedd ei ddeall. Drwy'r dogfennau hyn (ynghyd â Chod Ymddygiad yr Aelodau, y Pwyllgor Safonau a rôl Archwilio Mewnol) mae'r Cyngor yn gweithredu gyda gonestrwydd, gwerthoedd moesegol ac o fewn ei bwerau cyfreithiol.

Caiff trefniadau llywodraethu eu hadolygu bob blwyddyn a'u cynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) a gaiff ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym egwyddorion llywodraethu ac arferion rheoli da. Defnyddir y rhain ar draws y cynghorau i wneud yn siŵr bod gennym ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae'r trefniadau sydd gan y Cyngor ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol wedi'u nodi isod.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cod Llywodraethu Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** | Mae Cod Llywodraethu'r Cyngor yn rhoi datganiad cyhoeddus i esbonio sut mae'r Cyngor yn cyflawni ac yn dangos cydymffurfiaeth ag egwyddorion Llywodraethu CIPFA. |
| 2 | **Y Fframwaith Llywodraethu** | Ategir Cod y Cyngor gan Fframwaith Llywodraethu sy'n cynnwys y polisïau, y gweithdrefnau, yr ymddygiadau a'r gwerthoedd y mae'r Cyngor yn cadw atynt wrth lywodraethu a rheoli. |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhoi sicrwydd ynghylch trefniadau Llywodraethu'r Cyngor, a hefyd yn nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt a'u gwella yn y dyfodol. Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw adrodd yn gyhoeddus ar y graddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol. Mae'n nodi'r meysydd hynny y nodwyd bod angen eu gwella yn dilyn hunanasesiad. |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu a gaiff eu monitro drwy Gynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

Nodwyd nifer o faterion pwysig yn DLlB y Cyngor ar gyfer 2023/24 i fwrw ymlaen â nhw yn 2024/25, felly dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyflwyno gwelliannau, gan gynnwys:

- Mae gwelliannau i'n prosesau rheoli ariannol tymor canolig i hir yn cynnwys cynnal cyfarfodydd cynnar â grwpiau gwleidyddol er mwyn iddynt wneud sylwadau ar gynigion y gyllideb, a dau gyfarfod manwl â'r Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb yn edrych ar Addysg ac Ysgolion a Gofal Cymdeithasol a Llesiant.
- Mae gweithgareddau cynllunio'r gweithlu, gan gynnwys tyfu ein gweithlu ein hunain drwy recriwtio prentisiaid, graddedigion a gweithwyr rhyngwladol, wedi arwain at welliant parhaus wrth recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol Plant. Mae angen cymhwyso'r egwyddorion hyn i feysydd eraill sy'n profi anawsterau wrth recriwtio.
- Adolygodd yr Ymddiriedolaeth Garbon ein cynnydd tuag at amcan di-garbon 2030, ein trefniadau llywodraethu a rhoi costau gweithredu bras ar gyfer yr amcan. Cyflwynodd y canfyddiadau cychwynnol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Ebrill 2025. Byddwn yn adolygu eu canfyddiadau ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y cynllun gweithredu a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer taith 2030.
- Rydym yn cymryd rhan mewn Cymuned Ymarfer Gwybodaeth am Berfformiad er mwyn helpu i wella ansawdd gwybodaeth am berfformiad (gan ganolbwyntio'n arbennig ar ymateb i feirniadaethau Archwilio Cymru) a rhoi cyfleoedd i adolygu trefniadau rheoli perfformiad, rhannu arfer gorau, a chydweithio i ddatblygu data. Cynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol o Drigolion (CLlLC/Data Cymru) yn yr hydref.
- Cytunwyd ar Reolau Gweithdrefn Cyllid diwygiedig gan y Cabinet a'u nodi gan y Cyngor ym mis Ionawr 2025. Mae'r gyllideb yn parhau i gael ei monitro'n agos a'i hadrodd i'r Cabinet bob chwarter. Mae mwy o friffiau hefyd wedi cael eu rhoi i'r aelodau. Cyhoeddwyd postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn yr hydref i godi ymwybyddiaeth o sefyllfa gyllidebol y Cyngor ac egluro sut mae'r arian yn cael ei wario. Gwnaed hyn cyn yr ymgynghoriad llawn ar y gyllideb a gwblhawyd ym mis Ionawr 2025.
- Mae Strategaeth Ddigidol ddrafft newydd wedi'i datblygu, sy'n myfyrio ar feirniadaethau blaenorol gan Archwilio Cymru a phrif flaenoriaethau'r Cyngor. Bydd proses i ymgynghori ar y ddogfen yn dechrau ym mis Mai 2025.

# Gwrando ar safbwyntiau pobl eraill

Mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau i holl drigolion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae rhai o'n gwasanaethau o natur gyffredinol (yn cael eu defnyddio gan yr holl drigolion), fel ffyrdd a phalmentydd, a gwastraff ac ailgylchu. Pan fyddwn yn datblygu, yn adolygu ac yn newid y gwasanaethau hyn, mae angen inni geisio siarad â phoblogaeth gyfan y Fwrdeistref i'n helpu i benderfynu beth i'w wneud. Mae gennym amrywiaeth o wahanol ddulliau o wneud hyn, o ymgyngoriadau ffurfiol ar newidiadau mawr, sesiynau galw heibio a thrafodaethau cyhoeddus, a'r ymgysylltiad rheolaidd, dyddiol o'n cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae gwasanaethau eraill yn fwy arbenigol ac yn cael eu defnyddio gan niferoedd llai o drigolion, fel cludiant ysgol a gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu neu bobl ifanc sy'n gadael gofal. Pan fyddwn yn datblygu, yn adolygu ac yn newid y gwasanaethau hyn, mae angen inni geisio siarad â'r bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hynny a'u teuluoedd i'n helpu i benderfynu beth i'w wneud. Mae gennym amrywiaeth o ddulliau o wneud hyn, o sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu, i gydgynhyrchu'r gwasanaethau hynny'n uniongyrchol â'r defnyddwyr a'u teuluoedd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cwblhau amrywiaeth eang o weithgareddau i ddeall a defnyddio safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth, a barn ein rheoleiddwyr. Ceir crynodeb o'r prif weithgareddau hynny isod.

# Ymgynghori ac ymgysylltu

Caiff ymgyngoriadau corfforaethol eu hyrwyddo'n ddwyieithog ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y cyngor, eu rhannu drwy fwletinau wythnosol i drigolion a negeseuon staff wythnosol drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Rhennir hyd at dri ymgynghoriad y flwyddyn â'n panel dinasyddion i godi ymwybyddiaeth ac annog cyfranogiad. Cynhelir sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb lle bo angen ac mae ein Cyngor Ieuenctid yn cymryd rhan mewn ymgyngoriadau perthnasol.

Buom yn ymgynghori ar nifer o'n strategaethau a'n hadroddiadau allweddol, er enghraifft Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Eleni, gwnaethom hefyd gymryd rhan yn yr 'Arolwg Cenedlaethol o Drigolion' a gefnogir gan Data Cymru a CLlLC o fis Medi hyd fis Tachwedd 2024. Nod yr ymgynghoriad cynhwysfawr hwn oedd gwella ein dealltwriaeth o ganfyddiadau, blaenoriaethau a phrofiadau'r trigolion ar themâu a oedd yn cynnwys ansawdd bywyd, diogelwch cymunedol, bodlonrwydd â gwasanaethau'r cyngor, ac lefelau ymddiriedaeth ac ymgysylltiad y cyhoedd. Cawsom dros 3,000 o ymatebion. Rydym ar hyn o bryd yn dadansoddi cynnwys manwl yr ymatebion, a bydd yr wybodaeth a gesglir yn ein helpu i siapio ein gwasanaethau a'n cyfathrebiadau.

Caiff strategaethau a gwasanaethau eraill eu cydgynhyrchu â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd i'n helpu i greu gwasanaethau sy'n ymateb yn well i anghenion pobl, yn gynhwysol ac yn effeithiol. Mae hyn wedi cynnwys datblygu strategaethau allweddol ar gyfer gofalwyr fel y Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc a chreu Llysgenhadon Gofalwyr Ifanc, gan sicrhau bod gofalwyr ifanc yn dylanwadu ar ddatblygiad cefnogaeth gan gymheiriaid, adnoddau addysgol a pholisïau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad ar draws cymunedau.

Buom hefyd yn ymgynghori ar newidiadau pwysig a gynigiwyd i'r ffordd y mae'r cyngor neu ein gwasanaethau'n gweithio. Dyma rai o’r prif ymgynghoriadau yn 2024/25 –

- Roedd ein **Hymgynghoriad Blynyddol ar y Gyllideb** yn cynnwys ymgysylltu â'r Panel Dinasyddion, ac fe'i cynhaliwyd ym mis Ionawr 2025. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ynghylch egwyddorion y gyllideb, lleihau neu gau gwasanaethau, taliadau newydd, y Dreth Gyngor a ffocws ar ddinasyddion. Cafwyd 1,637 o ryngweithiadau â'r ymgynghoriadau, drwy gwblhau'r arolwg, ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r Panel Dinasyddion. Roedd y cyfranogwyr i raddau helaeth yn gwrthwynebu lleihau gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed, ar gyfer addysg, ac ar gyfer amddiffyn plant. Rhoddwyd blaenoriaeth is i wasanaethau fel cyfleusterau hamdden neu ddarpariaeth feithrin. Roedd dros 54% o'r ymatebwyr yn cefnogi cynnydd o 4.5% neu'n uwch i'r Dreth Gyngor.

- Cynhaliwyd **Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant** yn nhymor y ngaeaf 2024 gydag arolygon ar gyfer rhieni a darparwyr. Cafwyd cyfanswm o 984 o ymatebion i'r arolwg rhieni, a 30 o ymatebion i'r arolwg darparwyr. Bydd yr asesiad hwn yn ein helpu gael dealltwriaeth well o ddefnydd rhieni a gofalwyr o ofal plant, cyfanswm y cyflenwad o ofal plant, ac unrhyw faterion neu newidiadau a allai effeithio ar y galw am ofal plant dros y pum mlynedd nesaf.

- Cynhaliwyd ymgynghoriad ar **Bolisi Cludiant â Chymorth** newydd rhwng mis Awst a Hydref 2024. Amlinellodd ein dull o ddarparu cludiant i bobl sy'n cael mynediad at wasanaethau sy'n bodloni angen gofal neu gymorth asesedig. Codwyd pryderon yn yr ymgynghoriad a adlewyrchwyd yn y polisi diwygiedig ac a gytunwyd wedyn gan y Cabinet.

- Ar y **Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Porthcawl**, cynhaliwyd gweithdai ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid lleol a sefydliadol rhwng mis Medi a Rhagfyr 2024.

- Ar yr **Uwchgynllun Adfywio ar gyfer y Llyn Halen a Sandy Bay** cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu dros gyfnod o fis rhwng mis Ionawr a Chwefror 2025, i gael adborth er mwyn helpu i lywio'r opsiwn ailddatblygu terfynol. Daeth dros 900 o bobl i'r arddangosfa gyhoeddus. Yn ogystal â hynny, derbyniwyd adborth drwy e-bost, ffurflenni adborth ar-lein a chopïau caled yn yr arddangosfeydd. Cefnogwyd hyn gan wefan y prosiect a nifer o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ysgolion a byrddau crwn.

- Gwnaethom ymgynghori ar bum newid a gynigiwyd i **Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol** rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2024, gan gynnwys pedair sesiwn ymgynghori cyhoeddus a phedair sesiwn i ddisgyblion a phobl ifanc. Cafwyd cyfanswm o 1,308 o ymatebion i'r arolwg. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn gymysg. Roedd rhwng 48% a 70% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu pob un o'r cynigion, am resymau'n canolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant plant, pryderon amgylcheddol, effaith gymdeithasol ac economaidd, a'r effaith ar bresenoldeb ac addysg. Cytunodd y Cabinet yn anfoddog â phedwar o'r pum cynnig oherwydd yr angen i arbed arian ar frys, gan ddweud ei bod bellach yn amhosib cynnig darpariaeth fu gynt gyda'r lefelau mwyaf hael yng Nghymru. Bydd newidiadau i gynnig pump a oedd yn edrych ar gludiant i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu gohirio nes bod mwy o ymchwil wedi'i gwblhau. Gan ddechrau o fis Medi 2025, cyflwynir y newidiadau canlynol:

  - Lle bo llwybr cerdded diogel wedi'i nodi, bydd pellteroedd cymwys ar gyfer cludiant ysgol yn newid i'r terfynau statudol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef dwy filltir ar gyfer disgyblion ysgol gynradd, a thair milltir ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd.

  - Yn y dyfodol, ni fydd disgyblion y mae eu cymhwysedd i gael cludiant ysgol am ddim wedi'i drosglwyddo gan frawd neu chwaer hŷn yn gymwys i dderbyn yr un ddarpariaeth mwyach.

  - Ni fydd cludiant am ddim ar gael mwyach i ddysgwyr meithrin na dysgwyr ôl-16, ond bydd yn parhau i'r rhai sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ffydd sy'n byw y tu hwnt i bellteroedd cymwys.

# Cwynion a Chanmoliaeth

Mae gennym broses dau gam glir a chytunedig ar gyfer ymdrin â chwynion:

## Cam Cwyn Anffurfiol

Dylid ymdrin â chwynion anffurfiol yn gyflym ac yn anffurfiol lle bo modd. Mae'n cynghori cwsmeriaid i gysylltu â'r swyddfa sy'n gyfrifol am y gwasanaeth i roi cyfle i ddatrys y broblem. Caiff cwynion anffurfiol eu cofnodi gan ein Tîm Gwybodaeth a byddwn yn adrodd arnynt bob chwarter i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn 2024/25 cawsom y cwynion anffurfiol canlynol:

| | Nifer | Datryswyd | Cadarn-hawyd | Atal neu dynnu'n ôl | Parhaus |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol i Oedolion** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gweinyddu Budd-daliadau** | 4 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol Plant** | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfleusterau Cymunedol** | 18 | 12 | 2 | 3 | 1 |
| **Ymdrin â chwynion** | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| **Addysg** | 25 | 22 | 2 | 1 | 0 |
| **Yr Amgylchedd** | 7 | 6 | 0 | 1 | 0 |
| **Cyllid a'r Dreth Gyngor** | 36 | 31 | 2 | 3 | 0 |
| **Tai** | 29 | 26 | 3 | 0 | 0 |
| **Cynllunio a Rheoli Adeiladu** | 18 | 15 | 1 | 2 | 0 |
| **Ffyrdd a Thrafnidiaeth** | 40 | 37 | 0 | 3 | 0 |
| **Amrywiol/Arall** | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Gwastraff a Sbwriel** | 3 | 1 | 0 | 2 | 0 |

## Cam Cwyn Ffurfiol

Gellir cyflwyno cwynion ffurfiol drwy e-bost, dros y ffôn, drwy lythyr neu drwy ffurflen gwyno ar-lein. Bydd pob cwyn ffurfiol, ac eithrio cwynion ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol (sydd â'u gweithdrefnau statudol eu hunain), yn cael eu derbyn, eu cofnodi a'u cydnabod yn ganolog gan y Tîm Gwybodaeth o fewn pum niwrnod gwaith. Anfonir y cwynion hyn at Bennaeth Gwasanaeth sy'n penodi uwch swyddog o'r gwasanaeth i ymchwilio i'r gŵyn ac ymateb yn uniongyrchol o fewn 20 diwrnod gwaith. Darperir copi o'r ymateb i'r Tîm Gwybodaeth. Byddwn yn monitro nifer y cwynion, yr amser ymateb, categori'r gŵyn ac o le yn y Fwrdeistref y maen nhw'n dod. Gwnaeth y Tîm Gwybodaeth dderbyn, cofnodi, cydnabod ac atgyfeirio cyfanswm o 39 o gwynion ffurfiol yn ystod 2024/25:

| | Nifer | Datryswyd | Cadarn-hawyd | Atal neu dynnu'n ôl | Parhaus |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol i Oedolion** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gweinyddu Budd-daliadau** | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol Plant** | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| **Cyfleusterau Cymunedol** | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| **Ymdrin â chwynion** | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| **Addysg** | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 |
| **Yr Amgylchedd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyllid a'r Dreth Gyngor** | 4 | 3 | 1 | 0 | 0 |
| **Tai** | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| **Cynllunio a Rheoli Adeiladu** | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| **Ffyrdd a Thrafnidiaeth** | 5 | 4 | 1 | 0 | 0 |
| **Amrywiol/Arall** | 9 | 8 | 0 | 1 | 0 |
| **Gwastraff a Sbwriel** | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |

Ceir prosesau ar wahân ar gyfer delio â chwynion gwasanaethau cymdeithasol, pryderon am ymddygiad Aelodau Etholedig a chwynion sy'n ymwneud ag ysgolion.

Yn dilyn archwiliad mewnol o'r broses gwynion gorfforaethol, ac adolygiad o'r system a'r broses gwynion bresennol, mae amrywiaeth o welliannau ar y gweill gan gynnwys:

- Modiwl e-ddysgu ar gyfer pob ymdrin â chwynion.
- Dull mwy cyson o weithio i gasglu, cofnodi ac adrodd ar gwynion a chanmoliaeth, yn ogystal â dogfennu gweithdrefnau i gefnogi'r holl swyddogion sy'n ymwneud â'r broses gwynion.
- Gwella'r broses i gwsmeriaid gwyno a chanmol (gan ymgorffori cwynion cam 1 a cham 2 yn yr un system).
- Proses brysbennu ac uwchgyfeirio well.
- Gwelliannau i adborth a gohebiaeth gan gwsmeriaid.
- Awtomeiddio elfennau o'r broses lle bo modd i symleiddio'r broses gyfan o'r dechrau i'r diwedd.
- Datblygu'r broses i sicrhau bod yr holl adborth yn cael ei gasglu a'i gofnodi, gan gynnwys a gafodd y gŵyn ei chadarnhau ai peidio, ac unrhyw gamau a gymerwyd mewn perthynas â gwersi a ddysgwyd a chaniatáu dadansoddi data cwynion fel ffordd o nodi meysydd posibl ar gyfer gwella ac, ar sail hynny, sefydlu meysydd ar gyfer dysgu a datblygu pellach.
- Adolygu a datblygu adroddiadau monitro.

# Barn y rheoleiddiwr

Mae'r trefniadau i ymgysylltu â rheoleiddwyr yn gryf ac yn systematig. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng rheoleiddwyr ac uwch swyddogion yn y Cyngor i drafod gwaith rheoleiddwyr a chynlluniau gwella'r Cyngor.

Byddwn yn profi ein cynnydd yn rheolaidd yn erbyn barn ac argymhellion ein rheoleiddwyr, drwy draciwr rheoleiddio. Cafodd y traciwr rheoleiddio hwn ei hun ei sefydlu mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru fod angen inni wella ein dull o gofnodi ac o graffu ar ganfyddiadau archwilio, arolygu a rheoleiddio, ac o ddefnyddio'r canfyddiadau hynny i wella gweithgareddau'r Cyngor. Datblygwyd y mecanwaith er mwyn monitro cynnydd yn erbyn argymhellion yr holl arolygiadau ac archwiliadau a gaiff eu cwblhau gan brif reoleiddwyr gwasanaethau llywodraeth leol. Adroddir ar y mecanwaith wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr a Gorffennaf bob blwyddyn. Cyhoeddwyd yr adolygiadau newydd canlynol yn 2024/25.

- Cyhoeddwyd adolygiad Archwilio Cymru o'n Strategaeth Ddigidol ym mis Ebrill 2024. Daeth i'r casgliad bod gwendidau yn null y Cyngor o ddatblygu a chyflawni ei Strategaeth Ddigidol, gan wneud tri argymhelliad. Mae Strategaeth Ddigidol newydd bellach wedi'i datblygu ac yn destun ymgynghoriad.
- Cyhoeddwyd adolygiad Archwilio Cymru o Gynaliadwyedd Ariannol ym mis Medi 2024. Casgliad yr adolygiad oedd bod y Cyngor 'yn deall ei sefyllfa ariannol gyda threfniadau da i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol y mae'n eu hymestyn a'u haddasu, ond nid yw ond megis dechrau datblygu ei ymagwedd ar gyfer y tymor hir'. Rhoddodd ddau argymhelliad Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod aelodau etholedig yn cael gwybod yn llawn am sefyllfa ariannol y Cyngor ac mae proses y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb yn cael ei hadolygu i gefnogi cynlluniau ariannol tymor hwy.
- Cyhoeddwyd adolygiad Archwilio Cymru o drefniadau gwneud penderfyniadau ym mis Hydref 2024. Daeth i'r casgliad bod 'gan y Cyngor drefniadau gwneud penderfyniadau priodol ar waith yn gyffredinol, ond mae gwendidau o ran cynllunio ymlaen llaw a chraffu cyn penderfynu yn tanseilio eu heffeithiolrwydd'. Rhoddodd bum argymhelliad. Rhoddwyd camau gweithredu ar waith i ymateb i'r argymhellion, gan gynnwys cyhoeddi blaenraglen waith craffu 6 mis o hyd, diweddaru ein cynllun dirprwyo, hyfforddiant craffu a datblygu cynigion am drefniadau craffu newydd, gan gynnwys ailenwi'r Pwyllgorau Craffu.
- Cyhoeddwyd adroddiad Archwilio Cymru ar yr Amcanion Llesiant a osodwyd gennym ym mis Hydref 2024. Daeth i'r casgliad bod y Cyngor 'wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant, ond mae cyfleoedd i adeiladu ar sut mae'n cynnwys dinasyddion a sut mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid', a chyflwyno tri argymhelliad. Ymdrinnir ag un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, a bydd y ddau argymhelliad arall yn rhan o ddatblygiad y Cynllun Corfforaethol nesaf.

Mae Archwilio Mewnol hefyd yn ofyniad statudol o fewn Llywodraeth Leol. Cyflawnir gwaith archwilio mewnol y Cyngor gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, gwasanaeth a rennir mewn partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a Chyngor Bro Morgannwg, gyda Chyngor Bro Morgannwg yn cynnal y gwasanaeth. Nodir isod farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ar gyfer 2024-25: "Sicrwydd Rhesymol". Mae hynny'n golygu, yn seiliedig ar y gwaith maen nhw wedi'i wneud, nad oes unrhyw faterion rheoli trawsffiniol sylweddol wedi'u nodi a fyddai'n effeithio ar amgylchedd rheolaeth cyffredinol y Cyngor. Mae a wnelo unrhyw wendidau a nodwyd â gwasanaethau penodol.

# Barn Staff ac Undebau Llafur - Dyletswydd Adrodd Partneriaeth Gymdeithasol 2024/25

Ers 1 Ebrill 2024 mae'r Cyngor wedi bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid inni esbonio sut rydym wedi gweithio gyda staff ac undebau llafur o fewn y flwyddyn, ac unrhyw feysydd a nodwyd gennym i'w gwella.

Mae'r berthynas â'r Undebau Llafur cydnabyddedig yn hynod gadarnhaol ar hyn o bryd ac mae eu cefnogaeth yn cael ei chroesawu i sicrhau ein bod yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol wirioneddol.

## Gwaith rheolaidd

Cynhelir cyfarfod misol â'r Undebau Llafur, lle bydd amrywiaeth o Swyddogion yn rhoi cyflwyniadau ar amrywiaeth o bynciau, lle caiff barn cydweithwyr o'r Undebau Llafur ei phrofi a lle caiff unrhyw broblemau eu trafod. Yr Undebau Llafur sy'n cymryd rhan yn y cyfarfodydd rheolaidd hyn yw'r rhai ar gyfer timau corfforaethol – Unsain, Unite, a GMB. Mae ein Hundebau Llafur addysgu hefyd yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd misol –ASCL, NEU, NASUWT, NAHT ac UCAC

Yn 2024/25 cawsom ddeg cyfarfod misol, gan osgoi mis Ionawr, mis Ebrill ac Awst fel arfer oherwydd gwyliau ysgol ac argaeledd cyffredinol. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn 2024/25 ar 12 Ebrill, 14 Mai, 14 Mehefin, 14 Gorffennaf, 20 Medi, 18 Hydref, 15 Tachwedd ac 13 Rhagfyr 2024, a 7 Chwefror a 21 Mawrth 2025.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd rheolaidd hyn, mae gan Undebau Llafur fynediad uniongyrchol at Swyddogion AD. Bydd y naill a'r llall yn cyfathrebu'n agored ac yn rheolaidd er mwyn cydweithio. Mae'r Undebau Llafur yn cymryd rhan yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y gweithlu ac mewn cyfarfodydd eraill cysylltiedig.

Caiff pob polisi, protocol a rhaglen eu rhannu â'r Undebau Llafur perthnasol ar y cyfle cynharaf, er mwyn cynnwys eu safbwyntiau a'u sylwadau. Wrth benodi'r Prif Weithredwr newydd yn ddiweddar, eisteddodd Swyddog Undeb Llafur ar un o'r paneli rhanddeiliaid yn rhan o'r ganolfan asesu.

## Cynllunio'r flwyddyn i ddod

Yn rhan o'r broses o ddatblygu'r gyllideb flynyddol, roedd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid yn bresennol yng nghyfarfodydd rheolaidd yr Undebau Llafur ym mis Tachwedd 2024 a mis Chwefror 2025. Rhoddodd y newyddion diweddaraf am y broses, yr ymagwedd, y rhagdybiaethau a wnaed (ac yn ddiweddarach, y setliad drafft gan Lywodraeth Cymru) a'r cynigion am arbedion.

Chwaraeodd Undebau Llafur ran annatod yn natblygiad Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd, lefel uchel y Cyngor ar gyfer 2023/28. Cawsant eu cynnwys ar dri phwynt allweddol: yn gyntaf, wrth ddatblygu'r ymagwedd, ac wedyn wrth ddatblygu, pennu a chytuno ar yr amcanion llesiant ac, yn olaf, yng ngham yr adroddiad drafft. Hyd yma, nid yw'r Undebau Llafur wedi cymryd rhan yn uniongyrchol yn natblygiad Cynllun Cyflawni blynyddol y Cynllun Corfforaethol.

## Adolygu'r flwyddyn a aeth heibio

Bob blwyddyn ers iddo gael ei sefydlu, mae'r Undebau Llafur wedi cymryd rhan yn natblygiad Hunanasesiad Corfforaethol y Cyngor. Yn rhan o'r gwaith i ddatblygu'r Hunanasesiad Corfforaethol 2023/24 roedd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol yn bresennol yng nghyfarfod rheolaidd yr Undebau Masnach ar 14 Gorffennaf 2024. Cyflwynodd y prif bwyntiau a'r barnau o'r hunanasesiad drafft a chymryd safbwyntiau, meysydd i'w datblygu ac unrhyw faterion gan yr Undebau Llafur a oedd yn bresennol. Cafodd yr adroddiad ei hun hefyd ei rannu â'r Undebau Llafur i'w adolygu, ac i dderbyn unrhyw sylwadau neu newidiadau ychwanegol.

## Meysydd i'w gwella

- Datblygu proses fwy diddorol a rhyngweithiol i gynnwys cydweithwyr o'r Undebau Llafur yn y broses hunanasesu.
- Datblygu rôl glir a chytunedig ar gyfer cydweithwyr o'r Undebau Llafur yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ar y gyllideb.
- Cynnwys cydweithwyr o'r Undebau Llafur yn y gwaith i ddatblygu ac adolygu Cynllun Cyflawni blynyddol y Cynllun Corfforaethol (bob blwyddyn, yn hytrach na'r trefniant presennol i'w cynnwys bob pum mlynedd)
- Darparu hyfforddiant neu godi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogeion a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur ynghylch sut mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn cael ei gweithredu.
- Gweithio i gadarnhau cytundebau wedi'u diweddaru ar gyfleusterau ac amser yr Undebau Llafur.

# Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Datblygwyd ac ymgynghorwyd ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ddechrau 2024, ac roedd yn amlinellu ein chwe amcan cydraddoldeb strategol, a fydd yn siapio sut y byddwn yn cynllunio, darparu a chyflenwi ein gwasanaethau mewn modd sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau.

Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024/28 a gafodd ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2024 ac sydd bellach wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Bydd gwaith tuag at gyflawni'r camau gweithredu hyn yn parhau dros 4 blynedd nesaf y Cynllun hwnnw.

Adroddir yn rheolaidd ar gynnydd y cynlluniau wrth y Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol, ac mae'r cyfrifoldeb dros gyflawni'n weithredol yn nwylo'r holl feysydd a thimau gwasanaeth. Mae Pwyllgor Cydraddoldeb ein Cabinet yn monitro ac yn craffu ar gyflawniad yn erbyn yr amcanion.

## Sut ydym ni'n nodi ac yn casglu gwybodaeth berthnasol?

Rydym wedi ymrwymo i gasglu a defnyddio data i nodi sefyllfaoedd lle bydd rhai grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn profi effaith anghymesur neu lle gallem ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Rydym yn casglu data ar gwsmeriaid a thrigolion drwy ein gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu ac ar ein cyflogeion drwy ein systemau mewnol ein hunain. Byddwn yn casglu ac yn defnyddio'r data cydraddoldeb canlynol:

- Data proffil cyflogaeth ar gyfer pob nodwedd warchodedig.
- Data defnyddwyr gwasanaeth i ddeall nodweddion ein defnyddwyr gwasanaeth.
- Ymgeiswyr swyddi ar gyfer pob nodwedd warchodedig.

Cyhoeddir y data hyn yn flynyddol fel rhan o broses adrodd flynyddol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (a fydd bellach yn cynnwys yr asesiadau effaith cydraddoldeb llawn a gynhaliwyd). Yn ogystal â hyn, byddwn yn cyhoeddi’r canlynol yn flynyddol:

- Adolygiad o gynllun gweithredu’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Adroddiad blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Adroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg.



## Pa mor effeithiol yw trefniadau'r cyngor er mwyn nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol?

Bob blwyddyn byddwn yn ceisio gwella'r Data Monitro Cydraddoldeb sydd gennym ar gyfer cyflogeion, gan ddiwygio'r broses o gasglu data i gynnwys mwy o nodweddion. Rydym yn annog cyflogeion i ddiweddaru gwybodaeth yn rheolaidd drwy gyfathrebu ac arfarnu a thrwy ddulliau eraill.

## Beth mae ein trefniadau'n ei ddweud wrthym am gydraddoldeb mynediad at gyflogaeth, hyfforddiant a thâl?

Bob blwyddyn, byddwn yn cyflwyno ein hadroddiad 'cydraddoldeb yn y gweithlu' i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet. Mae hyn yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth inni, gan gynnwys nifer y cyflogeion â nodweddion gwarchodedig, lle bo'r nodweddion hynny wedi'u datgan. Mae hefyd yn dweud wrthym am gyflog, recriwtio a hyfforddi cyflogeion â nodweddion gwarchodedig. Caiff hyn ei gydgasglu a'i gynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Caiff meysydd i'w datblygu eu cynnwys yng nghynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.








Except
buses
Ac eithro
bysiau
GIVE WAY
to reversing vehicles
ILDIWCH

2024/25

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council